Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
19/2021
Dyddiad Cyhoeddi:
16 March 2021

# Rhaglen Tasglu'r Cymoedd
# Cyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80082-898-8

Rhaglen Tasglu’r Cymoedd: Cyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid

Awdur: Nia Bryer, Ymchwil OB3
Ymchwilwyr: Heledd Bebb, Einir Burrowes

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Launa Anderson
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

# Cynnwys


Rhestr termau ........ 2

1. Cyflwyniad ........ 3
2. Methodoleg ........ 5
3. Trosolwg o Dasglu'r Cymoedd ........ 8
4. Canfyddiadau o'r gwaith maes: Yr hyn y gwnaeth Tasglu'r Cymoedd geisio'i gyflawni ........ 17
5. Canfyddiadau o'r gwaith maes: Ffordd o weithio ........ 28
6. Canfyddiadau o'r gwaith maes: Y cyflawniadau a'r gwahaniaeth a wnaed ........ 40
7. Casgliadau ........ 59

Atodiad A: Canllaw i'r Drafodaeth ........ 64

Atodiad B: Map ardal Tasglu'r Cymoedd ........ 68

## Rhestr termau

| Acronym / Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| EnRAW | Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| HoV | Blaenau'r Cymoedd |
| GDP | Cynnyrch domestig gros |
| GVA | Gwerth ychwanegol gros |
| IRT | Trafnidiaeth Integredig Seiliedig ar Alw |
| DPA | Dangosydd perfformiad allweddol |
| AS | Aelod o’r Senedd |
| TRI | Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio |
| VRP | Parc Rhanbarthol y Cymoedd |
| VTF | Tasglu'r Cymoedd |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Dateb, gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â chyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid allweddol rhaglen Tasglu'r Cymoedd.

1.2 Dyma oedd nodau’r astudiaeth:

- crynhoi'r cynnydd a wnaed gan Dasglu'r Cymoedd ers iddo gael ei sefydlu yn 2016, yn benodol ynghylch y tair blaenoriaeth a'r saith ffrwd waith
- nodi sut mae Tasglu'r Cymoedd wedi gweithio a pha mor effeithiol mae hyn wedi bod fel dull rhanbarthol ar gyfer datblygu polisïau a'u cyflawni.

1.3 Dyma oedd deg amcan yr astudiaeth:

- nodi ac amlinellu’r ysgogwyr allweddol, gan gynnwys ysgogwyr polisi, sydd y tu ôl i Dasglu'r Cymoedd
- penderfynu ar lwyddiant, neu fel arall, Tasglu'r Cymoedd wrth gyflawni ei nodau a'i amcanion
- casglu tystiolaeth ynghylch a yw Tasglu'r Cymoedd wedi bod o fudd i gymunedau'r Cymoedd, ac ym mha ffordd
- nod pa mor dda y mae rhaglen Tasglu’r Cymoedd wedi gweithio gyda mentrau economaidd eraill yn y Cymoedd, ac wedi ychwanegu gwerth atynt
- penderfynu i ba raddau y mae amrywiol weithgareddau prosiect yn rhaglen Tasglu’r Cymoedd wedi cael eu hintegreiddio’n dda ac yn dechrau sicrhau buddion ar y cyd
- adolygu effeithiolrwydd llywodraethu, systemau rheoli a threfniadau cyflawni rhaglen Tasglu’r Cymoedd
- penderfynu pa mor dda y mae gwahanol randdeiliaid wedi gweithio gyda'i gilydd yn Nhasglu'r Cymoedd
- nodi enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng sefydliadau partner

- casglu tystiolaeth ar sut mae gwersi o raglen Tasglu’r Cymoedd yn llywio ac yn llunio gwaith yn y dyfodol
- nodi meysydd o arfer da yn y rhaglen sydd â'r potensial i gael eu defnyddio yn rhannau eraill o Gymru.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cyfweliadau â 32 o randdeiliaid a gynhaliwyd yn ystod mis Tachwedd 2020.

1.5 Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno mewn saith pennod, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: trosolwg o Dasglu'r Cymoedd
- pennod pedwar: cyflwyniad o ganfyddiadau'r astudiaeth mewn perthynas â'r hyn y gwnaeth Tasglu'r Cymoedd geisio'i gyflawni
- pennod pump: canfyddiadau'r gwaith maes am sut mae Tasglu'r Cymoedd wedi gweithio
- pennod chwech: yn ystyried cyflawniadau Tasglu'r Cymoedd a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud hyd yma
- pennod saith: yn cyflwyno ein casgliadau ar waith Tasglu'r Cymoedd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr astudiaeth a phroffil y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy, ac yn trafod rhai o'r ystyriaethau methodolegol allweddol.

**Dull**

2.2 Roedd yr astudiaeth, yr ymgymerwyd â hi rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020, yn cynnwys yr elfennau gwaith canlynol:

- cyfnod cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol rhithwir gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi dull methodolegol a chynllun prosiect manwl
- ymchwil o'r ddesg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad llai manwl o ddogfennau polisi a strategol perthnasol Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag adolygiad manwl o ddogfennau'r rhaglen, gan gynnwys model rhesymeg theori newid ar gyfer y rhaglen, cynlluniau cyflawni ac adroddiadau blynyddol, strwythurau llywodraethu, datganiadau i'r wasg, datganiadau gan Weinidogion, cofnodion cyfarfodydd, a phapurau a gyflwynwyd i Dasglu'r Cymoedd
- paratoi canllaw trafodaeth ansoddol ar gyfer cyfweld â rhanddeiliaid (a nodir yn Atodiad A) a Hysbysiad Preifatrwydd ategol ar gyfer yr astudiaeth
- derbyn cronfa ddata o 62 o randdeiliaid a oedd wedi cytuno i gael eu cyfweld a dewis sampl gychwynnol o 30 o unigolion i gyfrannu at yr astudiaeth. Dewiswyd unigolion ar hap, gan sicrhau croestoriad o ran rôl (aelod o'r Tasglu Gweinidogol, Bwrdd Rhaglen, arall), natur yr ymgysylltiad (themâu blaenoriaeth Tasglu'r Cymoedd), a'r math o sefydliad (cyhoeddus, preifat a thrydydd sector). Mewn dau achos, dewiswyd rhanddeiliaid wrth gefn yn unol â'r dull samplu a fabwysiadwyd

- cyfweld â chyfanswm o 32 o randdeiliaid,[1] yr oedd pump ohonynt yn aelodau blaenorol o’r Tasglu Gweinidogol ac yr oedd tri yn aelodau o’r Bwrdd Rhaglen
- cyfuno canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg a drafftio'r adroddiad hwn.

**Proffil y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy**

2.3 Dyma oedd proffil y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy:

- roedd pump ohonynt yn swyddogion Llywodraeth Cymru
- roedd deg ohonynt yn swyddogion awdurdodau lleol
- roedd chwech o sefydliadau nid-er-elw neu drydydd sector
- roedd pedwar ohonynt yn cynrychioli’r sector preifat
- roedd dau ohonynt yn y sector addysg
- roedd tri o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y sector iechyd
- roedd un yn Aelod o'r Senedd (AS) ar hyn o bryd
- roedd un yn unigolyn annibynnol.

2.4 Ac eithrio’r wyth aelod o’r Tasglu Gweinidogol a’r Bwrdd Rhaglen, cofnodwyd ar gronfa ddata'r rhaglen fod gan y 24 o randdeiliaid eraill ddiddordeb mewn o leiaf un o'r saith thema strategol a gwmpesir gan Dasglu'r Cymoedd, er mwyn sicrhau sylw da i’w raglen waith.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.5 Mae angen ystyried y materion canlynol mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon:

- cynhaliwyd yr holl gyfweliadau'n rhithwir dros Microsoft Teams er mwyn lleihau cyswllt wyneb yn wyneb yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Nid ydym yn meddwl bod hyn wedi dylanwadu ar ganfyddiadau'r astudiaeth mewn unrhyw ffordd benodol: yn wir, yr oedd

[1] Gwnaeth cyfanswm y cyfranwyr ragori ar y targed oherwydd y gwnaeth rhai rhanddeiliaid wahodd cydweithiwr i ymuno â'r cyfarfod.

yn ddull effeithlon o ymgymryd â gwaith maes dros gyfnod amser gweddol fyr, ac, mewn rhai achosion, roedd yn caniatáu i randdeiliaid wahodd cydweithwyr i ymuno â thrafodaethau mewn ffordd hwylus

- mae canfyddiadau'r astudiaeth yn defnyddio canfyddiadau rhanddeiliaid o lwyddiannau ac effeithiolrwydd Tasglu'r Cymoedd. Nid oedd disgwyl y byddai'r safbwyntiau hyn yn cael eu hystyried a'u triongli yn erbyn data arall, yn nodedig data economaidd-gymdeithasol ar gyfer y Cymoedd neu farn dinasyddion am waith Tasglu'r Cymoedd.

# 3. Trosolwg o Dasglu'r Cymoedd

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o Dasglu'r Cymoedd, gan gynnwys pam y cafodd ei sefydlu, ei drefniadau llywodraethu a'r ffordd y cafodd ei weithredu.

### Cefndir

3.2 Sefydlwyd rhaglen Tasglu'r Cymoedd ym mis Gorffennaf 2016 gan y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Gymraeg ar y pryd, Alun Davies AC. Roedd sefydlu'r rhaglen yn cynrychioli ffordd newydd o weithio ar sail draws-lywodraethol i geisio mynd i'r afael â'r '[g]yfres unigryw o heriau sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn … wedi'u hachosi'n bennaf gan ddirywiad diwydiant trwm a diwedd y pyllau glo'[2] ar draws Cymoedd De Cymru. Yr oedd hefyd yn ymdrech i ymateb i'r anfodlonrwydd sylweddol a fynegwyd gan y gymuned am ei hansefydlogrwydd a rhagolygon ar gyfer y dyfodol, ac i wella ffyniant y Cymoedd yn y dyfodol.

### Tystiolaeth o angen

3.3 Llywiwyd gweledigaeth a blaenoriaethau'r Tasglu gan raglen gychwynnol o ymgynghori â'r gymuned, gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol, sesiynau grwpiau ffocws ac ymgysylltiad â'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ôl rhaglen gychwynnol o ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus,[3] roedd aelodau'r gymuned yn credu bod ychydig iawn o gyfleoedd am swyddi ar gael yn lleol a bod contractau dim oriau, yn ogystal â gwaith dros dro a gwaith asiantaeth, yn fynych ar draws yr ardal. Gwnaethant nodi'r angen i fusnesau lleol gael mynediad i ragor o gymorth ac arweiniad.

3.4 O ran cyflawni gwasanaethau cyhoeddus gwell, gwnaeth yr ymchwil gychwynnol hon ddangos yr angen i uno gwasanaethau, mynd i'r afael â phroblemau cludiant, a goresgyn y broblem o ddiffyg tai fforddiadwy, yn enwedig gan fod llawer o dai gwag mewn cyflwr gwael. O ran eu cymuned, mynegodd pobl leol farn gadarnhaol yn yr ystyr bod ganddynt ymdeimlad o falchder am fyw yn y Cymoedd a'u bod yn teimlo fel ei fod yn lle diogel i

[2] Llywodraeth Cymru (2017), Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, t.5
[3] Ymchwil Arad (2017), Trafod y Cymoedd: Rhaglen Ymgysylltu – Adroddiad terfynol

fyw. Fodd bynnag, roeddent am weld yr amgylchedd naturiol yn cael ei gynnal yn well a gwaith i wneud y mwyaf o'r adnodd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog sydd ar gael iddynt.

3.5 Gwnaeth Tasglu'r Cymoedd hefyd ddefnyddio ymchwil a gwaith dadansoddi, gan gynnwys data ystadegol ac economaidd megis y data a gasglwyd drwy asesiadau llesiant byrddau gwasanaethau lleol,[4] er mwyn nodi'r sefyllfa sylfaenol ar gyfer blaenoriaethau trosfwaol y rhaglen, ac i fesur y cynnydd a gyflawnwyd dros amser. Yn ein barn ni, mae canfyddiadau'r ymchwil yn darparu sail resymegol gref ar gyfer ymyrryd o ystyried bod ardal y Cymoedd yn tanberfformio'n eang ar draws ystod o ddangosyddion economaidd, yn gwneud yn waeth na Chymru o ran dangosyddion amddifadedd, ac yn profi anghydraddoldeb ar draws ystod o ddangosyddion iechyd, llesiant ac addysg.

3.1 Llywiwyd gwaith Tasglu'r Cymoedd hefyd yn ddiweddarach gan arolwg dinasyddion, yr ymgymerwyd ag ef rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019 gyda sampl o 609 o unigolion,[5] gyda'r bwriad o adeiladu ar ddata arall megis yr hyn sydd ar gael drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru.

**Cynllunio strategol**

3.2 Gwnaeth Tasglu'r Cymoedd gyhoeddi ei gynllun gweithredu cyntaf, Ein Cymoedd, Ein Dyfodol,[6] ym mis Gorffennaf 2017, gan nodi tair blaenoriaeth drosfwaol ar gyfer

- swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni
- gwell gwasanaethau cyhoeddus
- fy nghymuned leol.

3.3 Y mae wedi cyhoeddi tri chynllun cyflawni[7] – y ddau gyntaf yn ymwneud â 2017 a 2018, a'r trydydd yn ymwneud â chyfnod o dair blynedd rhwng 2019 a 2021. Roedd pob cynllun cyflawni'n nodi nifer o gamau gweithredu manwl

[4] Llywodraeth Cymru (2017), Tasglu'r Cymoedd: crynodeb o dystiolaeth
[5] Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd: crynodeb
[6] Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: cyflwyniad
[7] Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: cynllun cyflawni

(e.e. 60 o gamau gweithredu yng nghynllun 2017 a 46 o gamau gweithredu yng nghynllun 2018) y disgwylid eu cyflawni.

3.4 Gwnaeth cynllun cyflawni cyntaf Tasglu'r Cymoedd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017, nodi sut roedd disgwyl i'r tair blaenoriaeth drosfwaol gael eu cyflawni a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny. Yn y datganiad ysgrifenedig atodol,[8] mae'r Gweinidog Alun Davies, yn pwysleisio y byddai'r tasglu'n 'brosiect hirdymor' oherwydd bod gan y problemau sy'n wynebu'r Cymoedd 'wreiddiau dwfn ac maent yn berthnasol i sawl cenhedlaeth'. Mae'r datganiad yn ei gwneud yn glir nad yw'r tasglu am '"atgyweirio" Cymoedd y De' ond, yn hytrach, 'datblygu'r asedau hyn er mwyn creu ffyniant cymdeithasol ac economaidd hirdymor ar gyfer pob un o gymunedau'r Cymoedd'. Mae'r datganiad yn nodi y 'bydd y tasglu yn cyfrannu at y broses o lywio gwaith Llywodraeth Cymru, yn enwedig o safbwynt newid a llunio polisi'r llywodraeth yn ymwneud â'r Cymoedd'.

3.5 Mae'r cynllun cyflawni cyntaf yn nodi targed uchelgeisiol o helpu 7,000 o bobl ddi-waith neu anweithgar yn economaidd sy'n byw yn y Cymoedd i gael swydd erbyn 2021 a nodwyd Hybiau Strategol fel mecanwaith pwysig i wireddu'r targed hwn.

3.6 Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (a ymgymerodd â rôl cadeirydd y tasglu yn 2018), y byddai Tasglu'r Cymoedd yn canolbwyntio ar saith thema â blaenoriaeth[9] a chafodd y rhain eu cadarnhau o fewn y cynllun cyflawni cyfredol ar gyfer 2019 i 2021.[10] Ceir crynodeb o'r rhain yn Ffigur 3.1:

[8] Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De
[9] Datganiad Ysgrifenedig - Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De
[10] Llywodraeth Cymru (2019), Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni 2019-21

**Ffigur 3.1: Blaenoriaethau a themâu Tasglu'r Cymoedd**

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1**<br><br>Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni | 1. Hybiau Strategol<br>2. Yr Economi Sylfaenol<br>3. Entrepreneuriaeth a Chymorth Busnes |
| **Blaenoriaeth 2**<br><br>Gwell gwasanaethau cyhoeddus | 4. Tai<br>5. Y Gronfa Arloesi<br>6. Trafnidiaeth |
| **Blaenoriaeth 3**<br><br>Fy nghymuned leol | 7. Parc Rhanbarthol y Cymoedd |

3.7 Yn ogystal, estynnwyd ffin ddaearyddol y Tasglu i gynnwys Cwm Gwendraeth a Chwm Aman yn Sir Gaerfyrddin, fel y dengys yn Atodiad B, ar y sail fod yr ardal hon yn dangos nodweddion tebyg i ardal y maes glo yn Ne Cymru a gwmpesir gan Dasglu'r Cymoedd.

3.8 Yn ei drydydd cynllun cyflawni, sef y cynllun cyfredol, dyma'r camau gweithredu allweddol ar gyfer y saith thema â blaenoriaeth:

*Blaenoriaeth 1: Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni*

- Hybiau Strategol: denu buddsoddiad gan y sector preifat, hyrwyddo busnesau newydd, cefnogi adfywio economaidd, adleoli swyddi'r sector cyhoeddus i hybiau, a chefnogi strategaeth economaidd Blaenau'r Cymoedd.
- Yr Economi Sylfaenol: rhoi’r Economi Sylfaenol ar waith. Y Gronfa Her a'r cynllun Swyddi Gwell yn Nes at Adref
- Entrepreneuriaeth a Chymorth Busnes: uno dulliau a darpariaeth gyfredol, cymorthfeydd busnesau newydd, cymorth ychwanegol ar gyfer yr economi sylfaenol, e.e. digwyddiad Pitch It y Cymoedd, cymorth gan gymheiriaid, a chymorth i bobl ddi-waith a phobl sy'n anweithgar yn economaidd.

*Blaenoriaeth 2: Gwell gwasanaethau cyhoeddus*

- Tai: rhoi Cynllun Grant Cartrefi Gwag Rhondda Cynon Taf ar waith, yn ogystal ag ymgysylltu â Bargen Ddinesig Caerdydd a Banc Datblygu Cymru.
- Cronfa Arloesi: datblygu rhaglen cyn-fyfyrwyr i'r holl ysgolion uwchradd a gwella ymgysylltiad rhwng ysgolion a phartneriaid cymunedol.
- Trafnidiaeth – hwyluso gwaith cydweithredol rhwng partneriaid i wella ansawdd, amlder a fforddiadwyedd teithio.

*Blaenoriaeth 3: Fy nghymuned leol*


- Parc Rhanbarthol y Cymoedd – sefydlu'r prosiect hwn, a fyddai'n cyflawni mentrau ar draws tair ffrwd waith tirwedd, diwylliant a hunaniaeth; hamdden a llesiant; a chymunedau a menter.

**Trefniadau llywodraethu**

3.9 Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Tasglu'r Cymoedd wedi bod yn weddol gyson dros gyfnod y rhaglen, er bod aelodaeth wedi newid dros amser.

3.10 Mae Tasglu Gweinidogol, sy'n cael ei gadeirio gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a’i fynychu gan wyth aelod, yn goruchwylio ac yn herio’r gwaith a wneir gan Dasglu'r Cymoedd. Caiff ei gefnogi gan Fwrdd Rhaglen, sy'n cymryd cyfrifoldeb dros gyflawni'r rhaglen. Mae’r Bwrdd Rhaglen yn cael ei fynychu gan swyddogion Llywodraeth Cymru a chaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio Llywodraeth Cymru. Mae is-grwpiau ffrwd waith yn cefnogi gwaith Tasglu'r Cymoedd, ac mae is-grwpiau ar waith ar gyfer pob un o'r saith thema â blaenoriaeth. Yn ogystal, mae tîm craidd bach o Lywodraeth Cymru yn ysgogi ac yn monitro gweithrediad rhaglen Tasglu’r Cymoedd. Ceir crynodeb o'r trefniadau llywodraethu yn Ffigur 3.2.

**Ffigur 3.2: Trefniadau llywodraethu Tasglu'r Cymoedd**




Ffynhonnell: Papur a gyflwynwyd i Dasglu'r Cymoedd, Mehefin 2019[11]

**Gweithredu**

3.11 Er nad bwriad y bennod hon yw cynnig trosolwg manwl o'r hyn y mae Tasglu'r Cymoedd wedi'i weithredu hyd yn hyn, mae'n bwysig tynnu sylw at rai o'r materion allweddol a godwyd gan y Tasglu Gweinidogol, er mwyn rhoi cyd-destun ar gyfer rhai o'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid.

*Gweledigaeth wreiddiol*

3.12 Mae papurau cychwynnol a gyflwynwyd i'r Tasglu Gweinidogol yn nodi cylch gorchwyl clir ar gyfer Tasglu'r Cymoedd, gan esbonio'n glir y byddai Tasglu'r Cymoedd yn gweithio ar draws hyd cyfan y llywodraeth gyfredol oherwydd 'bod angen dull gweithredu hirdymor'.[12]

3.13 Dyma oedd diben gwreiddiol Tasglu'r Cymoedd:

- darparu cyngor ac argymhellion clir a realistig sy'n seiliedig ar wybodaeth i lywio gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De

[11] Papur 3: blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd a'i ffyrdd o weithio
[12] Cylch Gwaith Tasglu Gweinidogol Cymoedd De Cymru

er mwyn helpu i gyflawni'r uchelgais a'r weledigaeth a nodir yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol

- arwain a chymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni'r camau gweithredu a gweithgareddau allweddol a nodir yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol yn llwyddiannus.

3.14 Mae dogfennau cychwynnol i'r Tasglu Gweinidogol hefyd yn nodi y byddai disgwyl i Dasglu'r Cymoedd gyflawni'r weledigaeth ganlynol erbyn 2021:

- 'dod â chyfran o'r twf a welir i'r de o goridor yr M4 i'r Cymoedd a chreu swyddi o safon, gydag amodau a thelerau teg i gyflogeion'
- 'bydd wedi galluogi pobl sy'n byw yn y cymoedd i gael mynediad i'r hyfforddiant sgiliau cywir i gael gwaith a chefnogi busnesau i dyfu a ffynnu ar draws Cymoedd De Cymru'
- 'ni fydd pobl sy'n byw yng nghymunedau Cymoedd De Cymru bellach yn teimlo wedi'u difreinio ac yn bell o waith Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaethau'

'bydd wedi gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol i wella mynediad i wasanaethau lleol, sy'n ymateb i anghenion pobl. Erbyn 2021, ni fydd y Cymoedd yn cael eu hystyried fel ardal o amddifadedd, ond byddant yn cael eu cydnabod fel cyrchfan i dwristiaid, a fydd yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r DU a thu hwnt.'[13]

*Newid mewn cyfeiriad*

3.15 Gwnaeth penodi cadeirydd newydd i Dasglu'r Cymoedd ar ddechrau 2019 roi cyfle i adolygu gweithrediad y rhaglen. Trafodwyd sawl problem yn ystod cyfarfod y Tasglu Gweinidogol ym mis Ionawr 2019[14] sy'n werth eu nodi isod, yn anad dim oherwydd iddynt gael eu codi hefyd yn ystod cyfweliadau gyda rhanddeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pryderon fod y tasglu'n canolbwyntio ar ormod o ardaloedd
- pryderon y byddai angen arian ychwanegol i wireddu targedau penodol

[13] Tasglu Gweinidogol Ar gyfer Cymoedd De Cymru
[14] Cyfarfod tasglu ar gyfer y Cymoedd: 28 Ionawr 2019

- angen am fwy o eglurder ynghylch sut y gallai aelodau gefnogi’r gwaith o gyflawni themâu allweddol yn well
- sut orau i gynnal ac adeiladu ar lwyddiant gwaith ymgysylltu cychwynnol
- sut gallai aelodau gyfrannu at weithgareddau ymgysylltu i sicrhau bod agenda cyflawni'r tasglu yn cael ei deall yn ehangach
- angen canolbwyntio ar y weledigaeth na fwriadwyd i Dasglu'r Cymoedd fod yn fecanwaith cyflawni ond, yn hytrach, yn gerbyd ar gyfer datblygu strategaeth newydd i'r Cymoedd
- angen cryfhau perthnasoedd rhwng Tasglu'r Cymoedd ac awdurdodau lleol a defnyddio enghreifftiau o arfer da ar draws awdurdodau lleol
- angen mabwysiadu rhagor o gysondeb ar draws buddsoddiadau Hybiau Strategol.

3.16 Mae cofnodion a phapurau Tasglu'r Cymoedd o fis Ionawr 2019 ymlaen yn darlunio newid mewn pwyslais ar gyfer Tasglu'r Cymoedd, gan gynnwys mabwysiadu saith thema â blaenoriaeth newydd a gefnogwyd gan grwpiau ffrwd waith unigol. Yn ogystal, er y byddai Hybiau Strategol yn parhau i fod yn 'offeryn cynllunio strategol’, cytunwyd na fyddai hyn yn 'unig ffocws gwariant' cronfa Tasglu'r Cymoedd. Erbyn mis Ionawr 2020, roedd Tasglu'r Cymoedd wedi symud ei ffocws i'r cysyniad o bentrefi angori. Mae cofnodion cyfarfod y Tasglu Gweinidogol o fis Hydref 2019 yn nodi bod Tasglu'r Cymoedd yn 'lle gwahanol i'r hyn yr oedd 10 mis yn ôl' a bod rôl y Tasglu wedi newid.

3.17 Erbyn canol 2019, mabwysiadwyd cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Tasglu Gweinidogol a oedd yn nodi diben Tasglu'r Cymoedd fel a ganlyn:

'cynghori Llywodraeth Cymru ar ddull newydd o fuddsoddi yn nyfodol y cymoedd. Bydd y dull hwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac yn eu grymuso, yn datblygu eu hasedau ac yn adfer ymdeimlad o obaith ac uchelgais.'[15]

[15] Papur 3: blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd a'i ffyrdd o weithio

3.18 Mae'n mynd ymlaen i nodi:

> 'Prif ffocws y tasglu fydd ennyn diddordeb a chynnwys y bobl sy'n byw yn y cymoedd, busnesau presennol, llywodraeth leol, y trydydd sector a sefydliadau dinesig wrth ddatblygu dull cydgysylltiedig o hyrwyddo'r rhanbarth ar gyfer buddsoddiad, cydgysylltu'r buddsoddiad presennol yn well, a mynd i'r afael â materion megis trafnidiaeth, cysylltedd, tai ac amddifadedd cymdeithasol.'

## 4. Canfyddiadau o waith maes: yr hyn yr oedd Tasglu'r Cymoedd yn bwriadu ei gyflawni

**Canfyddiadau allweddol**

Dyma farn rhanddeiliaid:

- bu achos cryf dros ymyrraeth o ystyried bod rhanbarth y Cymoedd wedi wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol hirdymor
- roedd Tasglu'r Cymoedd yn ymdrech fwriadol dda a oedd â'r potensial i fabwysiadu dull gwahanol ar gyfer gwella ffyniant cymunedau'r Cymoedd, o'i chymharu â mentrau cyflawni blaenorol
- roedd wedi bod yn briodol i Dasglu'r Cymoedd gael ei sefydlu gyda chylch gwaith ledled rhanbarth y Cymoedd gan y byddai hyn yn darparu llais cefnogol cryf i'r Cymoedd, yn unol â dull mwy rhanbarthol a seiliedig ar gyfer datblygu polisi a darparu rhaglenni ledled Cymru
- roedd blaenoriaethau a chynllun cyflwyno Tasglu'r Cymoedd wedi'u llywio'n dda gan farn a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol cychwynnol
- roedd Tasglu'r Cymoedd wedi'i sefydlu gyda nodau ac amcanion uchelgeisiol iawn, ond roedd amheuaeth ynglŷn â'r gallu i gyflawni'r rhain o fewn yr amserlenni a bennwyd
- roedd nodau Tasglu'r Cymoedd yn ddeublyg: roedd llawer o randdeiliaid o'r farn mai nod Tasglu'r Cymoedd oedd sefydlu dull traws-lywodraethol, gofodol a fyddai'n cydlynu polisi ac ymyriadau presennol i gynyddu effaith adnoddau cyfredol yn y Cymoedd. Rhoddodd eraill fwy o bwyslais ar Dasglu'r Cymoedd fel cyfrwng dosbarthu a fyddai'n ariannu ymyriadau penodol er budd cymunedau'r Cymoedd
- bu newid ym mlaenoriaethau a chynlluniau cyflenwi Tasglu'r Cymoedd dros amser; teimlwyd bod hyn yn cael ei yrru gan ddylanwadau gwleidyddol yn hytrach na'i lywio gan dystiolaeth am effeithiolrwydd ymyriadau

4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r adborth gan randdeiliaid am yr hyn yr oedd Tasglu'r Cymoedd yn bwriadu ei gyflawni, gan gynnwys rhoi ystyriaeth o’i nodau, ei amcanion, a'i flaenoriaethau.

4.2 Mae'n bwysig nodi bod llawer o randdeiliaid nad oeddent yn rhan o Dasglu'r Cymoedd o'r cychwyn, a/neu sydd wedi bod yn rhan o fentrau hynod benodol Tasglu'r Cymoedd yn unig, yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi sylwadau ar y ffordd y cafodd ei sefydlu.

**Ysgogwyr allweddol i sefydlu Tasglu'r Cymoedd**

4.3 Gwnaeth rhanddeiliaid gytuno'n unfrydol bod angen dros ymyrraeth ar draws rhanbarth y Cymoedd oherwydd yr anfantais economaidd-gymdeithasol hirdymor barhaus yr oedd wedi dioddef yn dilyn ei ddirywiad ôl-ddiwydiannol. Roedd llawer o randdeiliaid yn ystyried sefydliad Tasglu'r Cymoedd fel amcan â bwriad da i fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol oedd wedi ymreiddio’n ddwfn a wynebir gan lawer o gymunedau'r Cymoedd. Roedd rhai rhanddeiliaid yn cydnabod bod sefydlu Tasglu'r Cymoedd hefyd wedi cael ei yrru’n wleidyddol, gyda chanlyniad refferendwm yr UE ar draws y Cymoedd yn awgrymu dadrithiad sylweddol o fewn cymunedau. Dywedodd un rhanddeiliad o’r fath fod 'pobl yn teimlo fel nad oedd unrhyw un yn gwrando arnynt'. Nodwyd hefyd y cafodd ymrwymiad i’w sefydlu ym maniffesto Llafur Cymru cyn etholiadau 2016.

4.4 Roedd llawer yn croesawu sefydlu ymyriad gyda chylch gorchwyl ar draws rhanbarth y Cymoedd, oherwydd bod hyn yn cydnabod ac yn dilysu hunaniaeth ardal gyfan y Cymoedd. Gwnaeth rhanddeiliaid ddadlau bod y model o bosib yn cynnig 'datrysiad yn y Cymoedd' a oedd yn adlewyrchu diwylliant, topograffeg a chyd-destun economaidd unigryw'r Cymoedd:

> 'Rwy'n ei ddehongli fel cydnabod bod math arbennig o economi yn y Cymoedd. Mae yna rywbeth sy'n digwydd sydd yn unigryw ac felly mae angen dull unigryw ar ei gyfer.’

4.5 Roedd rhanddeiliaid hefyd yn meddwl bod ffocws penodol ar ranbarth y Cymoedd yn unol â’r dull o ddatblygu polisi a chyflawni rhaglenni mewn ardaloedd cyfagos, fel y rhai sy'n rhan o Fargeinion Dinesig, sy’n seiliedig fwyfwy ar leoedd a rhanbarthau. Dadleuwyd bod sefydlu Tasglu'r Cymoedd

yn golygu bod gan y Cymoedd lais 'lobïo cryfach', a oedd yn golygu na fyddai'n cael ei adael ar ôl hunaniaethau rhanbarthol eraill:

> ‘[byddai Tasglu'r Cymoedd] yn gweithredu fel gwrthbwys o ran polisi – er mwyn cydbwyso cyfleoedd a buddsoddiad yn y Cymoedd â'r buddsoddiad mewn dinasoedd'.

4.6 Roedd sawl rhanddeiliad yn ymwybodol o ymyriadau a dulliau polisi blaenorol a oedd wedi ceisio gwella ffyniant cymunedau'r Cymoedd ac wedi yn rhan ohonynt. Er y credwyd bod llwyddiant y mentrau unigol hyn wedi amrywio, dywedodd rhanddeiliaid nad oeddent wedi gwella ffyniant economaidd y rhanbarth ar y cyd. Dadleuodd un rhanddeiliad o’r fath fod 'er gwaethaf derbyn arian droeon, mae'r [Cymoedd] yn dioddef o hyd gydag amddifadedd economaidd'. O ganlyniad, cafodd ei gydnabod yn eang bod angen dull gwahanol, nad oedd yn dyblygu rhaglenni neu brosiectau blaenorol yn unig:

> ‘cafwyd sawl ymgais yn y gorffennol. Roedd hyn yn ganlyniad mwy pragmatig, yn seiliedig ar gamau gweithredu – ac nid oes modd gweld bai yn hwnnw. Dyma'r peth iawn i'w wneud.'

> ‘Dyma'r degfed ymgnawdoliad o fentrau sy'n ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd yn y Cymoedd. Y nod yw ceisio cael cronfeydd cyfredol o arian ymyrrydd lle mae eu hangen.'

4.7 Gwnaeth rhanddeiliaid fabwysiadu'r farn yn gyson fod Tasglu'r Cymoedd yn bwriadu mynd i'r afael â thrawstoriad o broblemau, gan ddadlau ei fod wedi cael ei sefydlu i fynd i'r afael â mwy na chyflawni ffyniant economaidd drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau eraill megis gwasanaethau cyhoeddus, iechyd a llesiant, tlodi, anghydraddoldeb cymdeithasol, ac adfywio canol trefi.

4.8 Roedd llawer o randdeiliaid yn ymwybodol bod blaenoriaethau a chynllun cyflawni Tasglu'r Cymoedd wedi'u llywio gan dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarfer ymgysylltu cychwynnol. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn ystyried y gwaith ymgysylltu cychwynnol fel gwaith dilys, helaeth a thrwyadl ac yn ei ystyried yn gryfder y dull a fabwysiadwyd o’i gymharu â mentrau blaenorol:

‘y gwahaniaeth y tro hwn yw y dylai fod i gyd am yr hyn y mae trigolion am [ei weld] yn digwydd. Gwnaethom lawer o waith ymgysylltu â chymunedau yn y cychwyn.’

4.9 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid hefyd yn credu bod yr adborth a gasglwyd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu wedi llywio prif dair blaenoriaeth allweddol Tasglu'r Cymoedd yn uniongyrchol ynghylch gwaith, gwasanaethau cyhoeddus, a'r gymuned. Roedd ychydig o randdeiliaid yn cofio eu rhan yn y digwyddiadau ymgysylltu hyn, gan fyfyrio ar yr ymgais wirioneddol i wrando ar faterion cymunedol:

‘Rwy'n cofio mynd i gyfarfod yn un o'r cymoedd i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr. Trafnidiaeth gyhoeddus oedd y broblem fwyaf i bobl yno, gan fod yr ardal mor anodd ei chroesi a bod y drafnidiaeth yno'n annibynadwy wrth geisio teithio o ben uchaf y cwm i lawr. Dyna'r un peth a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt.’

4.10 Roedd nifer fach o randdeiliaid eraill yn fwy beirniadol o'r gwaith ymgysylltu a wnaed. Roeddent yn pryderu, gan mai dim ond ar ôl sefydlu'r tasglu y dechreuodd y gwaith hwnnw, nad oedd aelodau’r gymuned wedi gallu cyfrannu syniadau ynghylch strwythur y mecanwaith cyflwyno yr oeddent yn dymuno'i gael yn ei le. Gofynnodd ychydig o randdeiliaid p'un a fabwysiadwyd y derminoleg gywir ar gyfer y ‘tasglu’ ei hun, gan y barnwyd bod awgrym negyddol yn perthyn i'r enw:

‘Pan glywais am y tasglu, meddyliais ei fod yn nawddoglyd iawn. Gallech bron ddychmygu criw yn neidio allan o danc i roi trefn arnom.’

**Lefel ddealltwriaeth o nodau ac amcanion**

4.11 Roedd rhanddeiliaid yn deall bod nod rhaglen Tasglu’r Cymoedd yn ddeublyg. Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad, yn fwyaf nodedig y bobl hynny a oedd wedi bod ynghlwm â Thasglu’r Cymoedd i raddau helaeth, nod cyffredinol Tasglu’r Cymoedd o sefydlu dull traws-lywodraethol, gofodol a fyddai'n cydlynu polisi ac ymyriadau presennol a chynyddu effaith yr adnoddau cyfredol yn y Cymoedd. Nid oedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn bod Tasglu’r Cymoedd yn rhaglen gyflwyno draddodiadol, ond, yn hytrach, ei fod yn fecanwaith â'r bwriad o gael dylanwad, a throsoledd cynyddol, dros

bolisïau ac ymyriadau a oedd eisoes ar waith er mwyn cyflymu ac ymhelaethu ar welliannau. Yr amcan oedd gweithio gyda chynlluniau a fodolai eisoes i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael, yn ddigonol, ag anghenion y Cymoedd. Ymhlith y sylwadau a fynegodd y rhanddeiliaid hyn, deallwyd bod Tasglu’r Cymoedd yn ymwneud â ‘mynd i'r afael â rhwystrau systemig sy'n cael effaith ar y rhanbarth’.

4.12 Rhoddodd rhanddeiliaid eraill, yn enwedig y bobl hynny a fu'n ymwneud yn llai â gwaith Tasglu’r Cymoedd ar lefel rhaglen, fwy o bwyslais ar y ffaith fod y nod cyffredinol yn ymwneud â gwneud gwahaniaeth i gymunedau'r Cymoedd drwy ddatblygu a chyflenwi mentrau gwirioneddol. O fewn y cylch gwaith hwn, roedd rhanddeiliaid o'r farn mai bwriad Tasglu’r Cymoedd oedd nodi bylchau yn yr ymyriadau a oedd eisoes ar waith, a'u llenwi, a helpu i ariannu gweithgareddau nad oeddent yn derbyn cyllid o unrhyw ffynhonnell arall. Er bod y bobl hynny a fu'n gweithio agosaf gyda Thasglu’r Cymoedd wedi pwysleisio na fwriadwyd erioed iddo fod yn gyfrwng dosbarthu, yn anad dim gan nad oedd cyllid gweithredu sylweddol erioed wedi'i ddyrannu iddo, fe wnaeth, er hynny, sicrhau ei gyllid ei hun dros amser y gwnaeth yn bosibl iddo gyflwyno ymyriadau penodol.

4.13 Gan ystyried mai canfyddiad rhai o'r rhanddeiliaid oedd bod Tasglu’r Cymoedd yn fwy o fecanwaith dosbarthu a ariannodd ymyriadau penodol, gwnaethant asesu cyflawniadau'r rhaglen ar sail y ddealltwriaeth hon. Mae hwn yn bwynt pwysig i'w ystyried gan ei fod yn cael dylanwad ar ganfyddiadau cyfranwyr o safbwynt llwyddiant Tasglu’r Cymoedd, neu'r gwrthwyneb. Roedd llawer o'r cyfranwyr hyn yn fwy beirniadol o ddylanwad Tasglu’r Cymoedd gan y byddent wedi disgwyl i'r rhaglen gyflwyno mwy o ymyriadau gwirioneddol a phethau y gellir eu cyflawni'n wirioneddol.

4.14 Yn wir, byddai wedi bod yn well gan rai pe byddai Tasglu’r Cymoedd wedi ymwneud yn fwy â gwaith cyflwyno o'r cychwyn cyntaf fel y gallai fod wedi cyflawni mwy ar gyfer cymunedau'r Cymoedd yn ystod cyfnod byr yn hytrach na'i fod yn canolbwyntio, yn bennaf, ar ‘blygu rhaglenni’. Cymharodd nifer fach o randdeiliaid Dasglu’r Cymoedd â menter ragflaenol, sef rhaglen Blaenau'r Cymoedd, gan ychwanegu bod y lefel uwch o adnoddau a chyllid a fu'n perthyn i Flaenau'r Cymoedd yn golygu y gallai

ddwyn mwy o fuddion i'r gymuned na'r hyn y gallai dull Tasglu’r Cymoedd ei gyflawni.

4.15 Pwysleisiodd rhanddeiliaid y rôl bwysig y disgwyliwyd i Dasglu’r Cymoedd ei chyflawni o ran dod â'r sefydliadau hynny ynghyd a weithredodd neu a ariannodd ymyriadau yn yr ardal, a sefydlu dull cydweithredol rhyngddynt. Dadleuodd rhai hefyd fod gan Dasglu’r Cymoedd rôl allweddol i'w chyflawni wrth hybu polisïau a mentrau a oedd eisoes ar waith yn y Cymoedd trwy helpu i ledaenu gwybodaeth a hwyluso'r cydweithio rhwng darparwyr a chymunedau'r Cymoedd. Nododd un o'r rhanddeiliaid hynny mai nod Tasglu’r Cymoedd oedd:

‘dod â holl fentrau Llywodraeth Cymru ynghyd a chodi eu proffil ar draws y Cymoedd’.

4.16 Cafwyd safbwynt cyson bod Tasglu’r Cymoedd wedi sefydlu cyfres uchelgeisiol o nodau ac amcanion. Awgrymodd rhai o'r rhanddeiliaid ei bod yn bosib y bu'r amrediad eang o flaenoriaethau yn rhy uchelgeisiol. Dadleuodd sawl rhanddeiliad y byddai wedi bod yn well ganddo pe byddai Tasglu’r Cymoedd wedi rhoi sylw i amrediad mwy cyfyng o feysydd polisi a/neu wedi canolbwyntio ar gyflwyno llai o brosiectau, ond rhai mwy sylweddol. Awgrymodd un o'r rhanddeiliaid hynny fod Tasglu’r Cymoedd wedi ‘taenu'r jam yn rhy denau’ a, gan ddefnyddio blaenoriaeth yr Hybiau Strategol fel enghraifft, dadleuodd ei bod yn bosibl y byddai buddsoddi mewn nifer llai o safleoedd wedi bod yn fwy effeithiol na dethol saith safle, fel y digwyddodd.

4.17 O safbwynt uchelgeisiau, roedd rhanddeiliaid yn ystyriol o'r ffaith nad oedd gan Dasglu’r Cymoedd ddangosyddion perfformiad allweddol penodol yn eu lle heblaw am ei brif darged pennaf o greu 7,000 o swyddi o safon. Efallai nad yw'n syndod felly bod llawer o randdeiliaid wedi'i chael yn anodd rhannu sylwadau ar y graddau yr oedd Tasglu’r Cymoedd wedi cyflawni ei uchelgeisiau, gan nodi diffyg eglurder ynghylch p'un a gyflawnwyd y prif darged o greu swyddi ynteu beidio. Ystyriwyd bod y targed ‘swyddi a grëwyd’ yn heriol, yn anad dim oherwydd yr anhawster a fu ynghlwm wrth fesur canlyniadau Tasglu’r Cymoedd a'u cysylltu'n uniongyrchol â'i waith,

ond hefyd oherwydd canfyddiad bod diffyg data sylfaenol ar y cychwyn cyntaf wedi rhwystro'r gwaith o olrhain cynnydd dros amser.

4.18 Cafwyd cydnabyddiaeth gan lawer o'r rhanddeiliaid na fyddai Tasglu'r Cymoedd erioed wedi gallu ymdrin yn llwyr â'r materion o fewn y terfynau amser a bennwyd, ond nodwyd y dylai achosi rhyw 'droad yn y llanw' o safbwynt ffyniant economaidd a chymdeithasol. Yn hyn o beth, dadleuwyd y byddai angen rhoi amserlen hwy i Dasglu'r Cymoedd er mwyn iddo gyflawni ei nodau ac amcanion.

4.19 Cafwyd cydnabyddiaeth barod gan y rhanddeiliaid bod blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd wedi newid dros amser, a chafwyd awgrym cryf bod y newidiadau hyn yn deillio o ddylanwadau a safbwyntiau gwleidyddol, yn hytrach na thystiolaeth ynghylch p'un a oedd dulliau penodol wedi bod yn effeithiol ynteu beidio. Cafwyd cydnabyddiaeth gan y rhanddeiliaid y newidiodd blaenoriaethau a safbwyntiau Tasglu'r Cymoedd pan benodwyd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth fel cadeirydd Tasglu'r Cymoedd, a'r gweinidog a fyddai'n ei arwain. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid o'r farn y bu mwy o ffocws ar flaenoriaethau economaidd o'r pwynt hwnnw ymlaen. Nododd ychydig o randdeiliaid bryder y rhoddwyd terfyn cyflym ar nifer o fentrau a gychwynnodd Tasglu'r Cymoedd, a hynny heb gynnal adolygiad trwyadl o'u cyflawniadau. Ar y llaw arall, meddyliodd nifer fach o randdeiliaid y bu'r dull a ddilynodd y cadeirydd newydd yn gryfder, gan ddangos bod Tasglu'r Cymoedd â'r gallu i addasu, bod yn hyblyg, ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi.

4.20 O safbwynt meysydd blaenoriaeth, un o'r pynciau trafod a godwyd gan sawl rhanddeiliad oedd p'un a ddylai Tasglu'r Cymoedd fod wedi canolbwyntio'i ymdrechion a'i adnoddau ar gyfleoedd ac ardaloedd daearyddol anghenus penodol yn rhanbarth y Cymoedd. Nodwyd bod Blaenau'r Cymoedd yn ardal anghenus, yn benodol, a nodwyd efallai bod Tasglu'r Cymoedd wedi methu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gododd yn sgil y buddsoddiad newydd yn ffordd yr A465:

‘Rwy’n cofio un gweithdy ar destun yr A465 – gwnaethom drafod popeth heblaw'r ffordd. Mae gennym ddatblygiad ffordd o bwys mawr – dylai hynny wir fod yn sbardun. Nid oes galwad i weithredu ar hynny.’

‘Pan edrychwch ar hyd yr A465, nid oes unrhyw bwyntiau mynediad ar gyfer parciau diwydiannol oddi arni, dim gwasanaethau, a dim arwyddion twristiaeth brown.’

‘Bu cymaint o fuddsoddiad yn y ffordd (Blaenau'r Cymoedd) ond dydyn ni ddim wedi hoelio'r buddion ar gyfer y cymunedau.’

4.21 Nodwyd, er bod Tasglu’r Cymoedd wedi rhoi ffocws ar Flaenau'r Cymoedd ar y dechrau, bu symudiad, dros amser, tuag at ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol eraill o'r Cymoedd. Cafwyd y sylwadau canlynol gan randdeiliaid:

‘Mae wedi newid ychydig bach. Mae wedi symud i ffwrdd o hynny ac mae'n canolbwyntio ar greu swyddi cyffrous ar gyfer ardal ddeheuol y rhanbarth a manteisio ar farchnad Caerdydd.’

‘Roedd y tasglu'n bendant wedi'i wyro tuag at y trefi oedd agosaf i Gaerdydd, Abertawe a Chasnewydd … doedd dim rhesymeg y tu ôl i hyn, roedd angen mwy o fuddsoddiad ar y trefi yn ardaloedd gogleddol y Cymoedd.’

4.22 Cwestiynodd rhanddeiliaid eraill p'un a fu diffyg ffocws ar sgiliau ac addysg ar ran Tasglu’r Cymoedd, a chafwyd awgrym cryf y dylid fod wedi sicrhau mai dyma oedd flaenaf ar agenda Tasglu’r Cymoedd, ochr yn ochr â'i flaenoriaethau economaidd.

**Sut olwg ddylai fod ar lwyddiant Tasglu’r Cymoedd?**

4.23 Roedd llawer o randdeiliaid a oedd wedi gweithio'n agos gyda Thasglu’r Cymoedd wedi cydnabod y byddai'n heriol nodi llwyddiannau'r rhaglen gan ystyried nad bwriad Tasglu’r Cymoedd oedd bod yn ‘brosiect â chanlyniadau a bennwyd ymlaen llaw.’ Cafodd nifer fach o randdeiliaid anhawster â nodi sut olwg ddylai fod ar lwyddiant Tasglu’r Cymoedd gan ei fod yn ‘gysyniad anodd ei ddirnad’ gan ystyried ei amrediad eang o flaenoriaethau a diffyg cyfrwng dosbarthu penodol.

4.24 Yn gyffredinol, awgrymodd rhanddeiliaid y dylid mesur llwyddiant Tasglu’r Cymoedd yn erbyn dwy elfen. Y cyntaf oedd newidiadau i berfformiad economaidd-gymdeithasol ar lefel facro a ‘ph'un a welwyd unrhyw leihad yn y bwlch’ o safbwynt dangosyddion fel cynnyrch domestig gros, gwerth ychwanegol gros, lefelau cyflogaeth, enillion, cymwysterau, a dangosyddion tlodi. Fodd bynnag, derbyniwyd, yn gyffredinol, y byddai'r pandemig COVID-19 yn ystod 2020 wedi cael effaith negyddol sylweddol ar allu Tasglu’r Cymoedd i gyflawni unrhyw effaith ystyrlon ar y dangosyddion hyn.

4.25 Yr ail fesur o lwyddiant oedd p'un a oedd Tasglu’r Cymoedd wedi llwyddo i gyflwyno ‘prosiectau datblygedig’ a oedd wedi dwyn buddion uniongyrchol i gymunedau'r Cymoedd. Wedi'i alinio â hyn, awgrymodd rhanddeiliaid eraill y dylid pennu canlyniad arall i Dasglu’r Cymoedd, sef sicrhau lefel uwch o ymgysylltiad â'r rhaglenni prif ffrwd presennol, a chyfranogiad ynddynt, ar draws cymunedau'r Cymoedd.

4.26 Roedd llawer o'r cyfranwyr yn realistig o safbwynt yr hyn y gellid ei gyflawni gan Dasglu’r Cymoedd, gan ystyried ei gyfnod gweithredol a'i gyfyngiadau ariannol. Roedd rhanddeiliaid yn ystyriol o'r ffaith, er bod gan Dasglu’r Cymoedd uchelgeisiau uchel, nid oedd yn bosibl eu cyflawni’n llwyr dros gyfnod o bedair blynedd. O ganlyniad, cwestiynodd rhai p'un a ellid rhoi mecanwaith tymor hwy ar waith a fyddai'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod presennol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, gan ychwanegu bod y materion y mae'r Cymoedd yn eu hwynebu yn ‘gofyn am ddatrysiad cyson a hirdymor’. Nododd un o'r rhanddeiliaid y canlynol:

‘Mewn byd delfrydol, byddwn wrth fy modd yn gweld bod y tasglu wedi cael effaith wirioneddol ar y Cymoedd. Mewn gwirionedd, roedd yr amserlenni a bennwyd yn golygu nad oedd hyn erioed yn bosibilrwydd go iawn. Rhaid asesu ei lwyddiant yn erbyn yr adnoddau cymharol gymedrol a ddyrannwyd iddo, a ph'un a yw'n cynrychioli gwerth ychwanegol.’

4.27 Pwysleisiodd ychydig o randdeiliaid fod rôl Tasglu’r Cymoedd, wrth gyflwyno prosiectau peilot a brofodd ddulliau newydd a ffyrdd newydd o weithio, yn un bwysig. O ganlyniad, byddai cipio a lledaenu'r gwersi a

ddysgwyd o'r rhain, ar lefel ehangach, yn ganlyniad allweddol o'i waith. Os bu'n llwyddiant, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod gan Dasglu’r Cymoedd rôl i'w chwarae wrth helpu i uwchraddio neu drosglwyddo arferion effeithiol i ardaloedd eraill ledled y Cymoedd a'r tu hwnt. Awgrymodd rhai o'r rhanddeiliaid fod y swyddogaeth beilota hon wedi dod yn fwy amlwg dros amser, ac er bod y mwyafrif yn gyfforddus â hyn, cwestiynodd nifer fach y rhesymeg sylfaenol dros adael i Dasglu’r Cymoedd fod yn gyfrwng profion ar gyfer gweithgareddau y gellid eu hailadrodd y tu hwnt i'r Cymoedd, ar sail y ffaith fod angen ar y rhanbarth gael datrysiadau pwrpasol a oedd wedi'u teilwra. Dadleuodd y rhanddeiliaid hyn hefyd nad oedd rhai o'r prosiectau peilot yn addas ar gyfer eu huwchraddio o reidrwydd, ond eu bod yn gweddu'n well i gael eu gweithredu drachefn mewn lleoliad arall wrth gadw eu ffocws graddfa fach. Dadleuodd cyfranwyr eraill nad oedd angen i'r atebion i'r problemau a wynebir gan y Cymoedd fod yn rhai arloesol ym mhob achos, ond bod Tasglu’r Cymoedd wedi ystyried bod syniadau o'r math hwn yn fwy dymunol ac yn ‘wleidyddol ddeniadol’.

4.28 Meddyliodd sawl rhanddeiliad y dylid asesu llwyddiant Tasglu’r Cymoedd yn erbyn y graddau yr oedd wedi llwyddo i ‘blygu rhaglenni’. Byddai hyn yn golygu bod Tasglu’r Cymoedd wedi cael dylanwad ar y ffordd y cafodd polisi ei ddatblygu ac ar sut y gellid defnyddio cyllid prif ffrwd ar draws y rhanbarth. Awgrymwyd y byddai'r un mor bwysig i asesu p'un a fyddai'r dylanwad hwn yn parhau y tu hwnt i gyfnod gweithredol rhaglen Tasglu’r Cymoedd. Yn wir, meddyliodd rhai o'r cyfranwyr y byddai'r graddau y bydd y Cymoedd yn parhau i fod yn ystyriaeth amlwg o safbwynt gweinidogion a llunwyr polisi yn fesur allweddol o waith Tasglu’r Cymoedd.

4.29 Pwysleisiodd llawer o'r rhanddeiliaid hefyd lwyddiant Tasglu’r Cymoedd o'r safbwynt ei fod wedi cyflawni ‘ymatebion integredig’, ar draws meysydd polisi gwahanol, i'r heriau y mae cymunedau'r Cymoedd yn eu hwynebu. Yn aml, nododd rhanddeiliaid y deuai hyn yn amlwg o ganlyniad i fwy o drawsweithio o fewn sefydliadau, a rhyngddynt, gan gynnwys o fewn Llywodraeth Cymru a rhwng awdurdodau lleol, ynghyd â rhwng sefydliadau o sectorau gwahanol, e.e.  rhwng iechyd, tai, gofal cymdeithasol, cymorth busnes ac addysg ac ati.

4.30 Amlinellodd rhanddeiliaid ffactorau llwyddiant eraill hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys p'un a fyddai gwaddol yn parhau y tu hwnt i fis Mawrth 2021 yn sgil gwaith Tasglu’r Cymoedd, boed hynny o safbwynt ffyrdd o weithio ynteu waith ymyrryd parhaus ar ffurf prosiectau. Gwnaethant hefyd gynnwys ystyried safbwyntiau aelodau'r cymunedau a ph'un a oeddent yn teimlo y bu unrhyw wahaniaeth gwirioneddol i'w cymunedau erbyn diwedd cyfnod y rhaglen.

4.31 Amlygodd rhanddeiliaid ddau ffactor allanol a gafodd ddylanwad ar allu Tasglu’r Cymoedd i gyflawni ei ganlyniadau. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- effaith y pandemig COVID-19 yn ystod 2020, nad oedd yn unig wedi rhwystro gallu sefydliadau i gymryd rhan yn agenda Tasglu’r Cymoedd, o ganlyniad i'r angen i flaenoriaethu gwaith cynllunio ac ymateb brys, ond a oedd hefyd wedi cael effaith andwyol ar nodweddion economaidd-gymdeithasol a llesiant cymunedau'r Cymoedd
- amodau cyni ariannol yr oedd sefydliadau, yn enwedig awdurdodau lleol, yn eu hwynebu yn ystod cyfnod gweithredol Tasglu’r Cymoedd. Sail resymeg Tasglu’r Cymoedd oedd y byddai'n bosibl i sefydliadau'r sector cyhoeddus ailddyrannu adnoddau i flaenoriaethau Tasglu’r Cymoedd. Fodd bynnag, cafodd cyfyngiadau ariannol effaith ar lefel y cyllid ac ar faint o aelodau o staff y gellid eu dyrannu i waith Tasglu’r Cymoedd. Nododd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi'i chael yn anodd cymryd rhan yng ngwaith Tasglu’r Cymoedd oherwydd diffyg amser a chyllid ar eu rhan nhw, a bod hynny wedi cael dylanwad ar waith cyflwyno nifer o fentrau (fel y peilot Trafnidiaeth Integredig Seiliedig ar Alw).

## 5. Canfyddiadau o waith maes: Ffordd o weithio

**Canfyddiadau allweddol**

Roedd rhanddeiliaid o'r farn ganlynol:

- y bu trefniadau llywodraethu Tasglu’r Cymoedd yn briodol. Roedd cryfderau'n cynnwys ymrwymiad gan chwaraewyr strategol, arweinyddiaeth effeithiol, a ffordd dryloyw o weithio. Roedd gwendidau'n cynnwys strwythurau gorgymhleth, a diffyg sicrhau mewnbwn ffurfiol gan gymunedau i waith y Tasglu Gweinidogol
- roedd y Bwrdd Rhaglen wedi gweithredu'n effeithiol ond bod effeithiolrwydd yr is-weithgorau yn amrywio
- roedd diffyg cyllid cyfalaf a refeniw sylweddol wedi rhwystro ymdrechion Tasglu’r Cymoedd. Roedd rhanddeiliaid o'r farn nad oedd digon o adnoddau i dîm gweithredol Llywodraeth Cymru
- nid oedd hyrwyddo gwaith Tasglu’r Cymoedd wedi bod yn flaenoriaeth, a gellid fod wedi gwneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i'r hyn a oedd yn digwydd o dan faner Tasglu’r Cymoedd
- roedd Tasglu’r Cymoedd wedi ymgysylltu'n effeithiol â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, o amrediad eang o sectorau ac ardaloedd daearyddol, ac wedi cryfhau cysylltiadau rhyngddynt. Nodwyd bod sawl enghraifft o weithio ar y cyd effeithiol rhwng sefydliadau partner wedi deillio o waith Tasglu’r Cymoedd
- credwyd bod y sector iechyd a'r sector addysg, a strwythurau rhanbarthol presennol (yn enwedig Bargeinion Dinesig) wedi ymgysylltu llai â Thasglu’r Cymoedd.

5.1 Bydd y bennod hon yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch trefniadau llywodraethu a gweithredu Tasglu’r Cymoedd. Bydd hefyd yn trafod sut y cydweithiodd sefydliadau rhanddeiliaid o fewn Tasglu’r Cymoedd, ac aliniad y rhaglen â pholisïau a dulliau eraill.

**Trefniadau llywodraethu a rheoli**

5.2 Roedd rhanddeiliaid yn fodlon, yn gyffredinol, ar y trefniadau llywodraethu a fabwysiadwyd gan Dasglu’r Cymoedd, a gwnaethant amlygu cryfderau'r tasglu fel a ganlyn:

- ei allu i gael mewnbwn a sicrhau ymrwymiad gan chwaraewyr strategol,
- arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol drwy'r cadeirydd,
- y statws a'r gydnabyddiaeth a enillodd yn gyffredinol.

Nododd un o'r rhanddeiliaid y canlynol:

‘Mae Tasglu’r Cymoedd, yn gyffredinol, yn dda. Mae'n cydbwyso cyfranogiad gan y gymuned busnes, a mewnbwn gan swyddogion a mewnbwn gwleidyddol.’

5.3 Amlygodd sawl rhanddeiliad hefyd y ffordd dryloyw o weithio ar draws Tasglu’r Cymoedd, gan ychwanegu y croesawyd cyhoeddi adroddiadau a chofnodion y tasglu yn gyhoeddus.

5.4 Roedd y brif feirniadaeth a gododd rhanddeiliaid yn ymwneud â'r ffaith fod trefniadau llywodraethu Tasglu’r Cymoedd yn rhy gymhleth, ac, oherwydd hynny, bu iddo:

‘fynd ar goll mewn strwythur gorgymhleth … cafodd popeth ei lyncu gan y strwythurau. Gellid fod wedi rhoi strwythur lawer symlach iddo. Roedd ganddo ormod o is-grwpiau.’

5.5 Cafwyd safbwyntiau cymysg ymhlith y rhanddeiliaid o safbwynt aelodau'r Tasglu Gweinidogol. Roedd rhai o'r farn y sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol gyda grŵp priodol o aelodau o amrediad eang o feysydd polisi a sectorau. Nododd un o'r rhanddeiliaid hyn fod y tasglu'n cynnwys ‘croestoriad defnyddiol o randdeiliaid’ a'i galluogodd i herio a siapio agenda'r rhaglen. Cwestiynodd rhanddeiliaid eraill p'un a oedd aelodau'r tasglu â'r swyddi mwyaf priodol i allu cael dylanwad ar benderfyniadau’n ymwneud â defnyddio'r cyllid a darpariaethau a oedd eisoes ar gael, a gwnaethant gasglu ei fod wedi gweithredu'n fwy fel corff cynghorol o ganlyniad i'r bwlch hwn.

5.6 Cafwyd cydnabyddiaeth o blith y rhanddeiliaid y bu newid yn nifer gyffredinol aelodau'r Tasglu Gweinidogol, ac i’r aelodau a oedd ynghlwm wrtho, hanner ffordd trwy ei gyfnod gweithredol, ac roeddent o'r farn fod y newid hwn wedi arwain at newid ffocws a blaenoriaethau Tasglu’r Cymoedd. Meddyliodd rhai hefyd y bu oedi wrth wneud penderfyniadau yn ystod y broses bontio ei hun. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y gostyngiad yn nifer yr aelodau yn y Tasglu Gweinidogol wedi'i gwneud yn haws i wneud penderfyniadau. Pryderodd eraill naill ai bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ymgynghori'n ddigonol â sectorau, neu fod diffyg cynrychiolaeth chwaraewyr allweddol ar y bwrdd.

5.7 Roedd y prif fater a godwyd o blith y rhanddeiliaid, o safbwynt trefniadau llywodraethu, yn ymwneud â diffyg y mewnbwn ffurfiol gan gymunedau i'r Tasglu Gweinidogol ei hun, a chafwyd y farn ei fod efallai wedi gweithredu mewn ‘modd rhy brig i'r bôn’ o ganlyniad. Awgrymodd un o'r rhanddeiliaid hyn y byddai wedi dymuno gweld model ‘rheithgor dinasyddion’ ar waith, a byddai wedi bod yn dda gan randdeiliad arall pe byddai cynrychiolydd ‘llais y gymuned’ ffurfiol wedi'i gynnwys yn y tasglu.

5.8 Yn gyffredinol, barnwyd bod y Bwrdd Rhaglen wedi gweithredu'n effeithiol a'i fod wedi canolbwyntio'n briodol ar waith cyflwyno'r rhaglen ac ar faterion gweithredol. Barnwyd hefyd bod y Bwrdd Rhaglen yn fforwm defnyddiol ar gyfer monitro cynnydd a hwyluso cysylltiadau rhwng meysydd polisi gwahanol. Awgrymodd rhai o'r rhanddeiliaid y gellid fod wedi hidlo'r hyn a gyfathrebwyd ynghylch cyfeiriad strategol y Tasglu Gweinidogol i'r Bwrdd Rhaglen er mwyn sicrhau ei fod yn trosi blaenoriaethau'r tasglu yn ymrywmiad gweithredol, a hynny mewn modd cyson.

5.9 Awgrymwyd y gallai'r Bwrdd Rhaglen fod wedi canolbwyntio'n fwy ar werthuso mentrau ac ar gipio'r gwersi a ddysgwyd, er mwyn gwrthbwyso ffocws y Tasglu Gweinidogol ar ‘syniadau a dyheadau’. Yn benodol, awgrymodd ychydig o randdeiliaid y methwyd cyfle i archwilio arfer da a gwersi a ddysgwyd o'r amrediad eang o brosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol a gyflwynwyd fel rhan o waith Tasglu’r Cymoedd. Awgrymwyd y gallai Tasglu’r Cymoedd archwilio'r agwedd hon cyn diwedd y rhaglen waith bresennol hon, er mwyn nodi pa brosiectau (gan gynnwys y rheiny a

ariennir drwy'r Gronfa Her) sy'n gweithio'n dda, a ph'un a ellid eu gweithredu drachefn mewn lleoliadau eraill neu eu cyflwyno iddynt.

5.10 Awgrymodd rhanddeiliaid fod effeithiolrwydd yr is-weithgorau yn amrywio. Barnwyd bod rhai o'r gweithgorau'n gweithio'n dda, ac roedd y rhain yn tueddu i fod yn rhai â hanes da o'u mynychu, cyfranogiad gwirioneddol gan aelodau, cefnogaeth gan ysgrifenyddiaeth Llywodraeth Cymru, a chadeiryddion brwdfrydig ac ymrwymedig yn eu llywio. Barnwyd eu bod hefyd yn weithgorau a oedd wedi gallu gwneud cynnydd da yn erbyn pethau penodol y gellid eu cyflawni, fel, er enghraifft, yr is-grŵp tai o ran cyflwyno'r Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag. Barnwyd mai'r gweithgorau llai effeithiol oedd y rheiny nad oeddent yn dueddol o fod wedi cyflawni cymaint o safbwynt yr hyn y gellir eu cyflawni yn wirioneddol. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch eu haelodau, e.e. nid oedd digon o gynrychiolaeth gymunedol ymhlith aelodau rhai ohonynt, neu roedd diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau grwpiau eraill.

5.11 Nid oedd ychydig o aelodau'r is-weithgorau'n teimlo'u bod wedi'u hysbysu'n dda iawn ynghylch y gweithgareddau eraill yr ymgymerwyd â hwy o dan faner Tasglu'r Cymoedd, ac roedd y rhain yn tueddu i fod yn unigolion nad oeddent ynghlwm wrth unrhyw weithgaredd arall heblaw'r rheiny a gwmpaswyd gan eu his-grwpiau penodol. Dadleuodd yr unigolion hyn nad oeddent yn gallu gweithredu fel hyrwyddwyr effeithiol ar gyfer Tasglu'r Cymoedd o ganlyniad.

**Trefniadau cyflwyno**

5.12 Roedd un o'r pynciau a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â gwaith cyflwyno Tasglu'r Cymoedd yn ymwneud â chyllid, a ph'un a oedd diffyg ffrwd ariannu sylweddol wedi rhwystro'i ymdrechion. Roedd y bobl hynny a oedd wedi gweithio agosaf gyda Thasglu'r Cymoedd wedi cydnabod mai un o amcanion pwysicaf Tasglu'r Cymoedd oedd cronni'r cyllidebau a fodolai eisoes a defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol er budd y Cymoedd. Roedd y bobl hynny nad oeddent ynghlwm wrtho i'r un graddau yn dueddol o fod yn fwy beirniadol o'r dull hwn ac o'r farn y dylid fod wedi

sicrhau bod cronfa cyfalaf neilltuedig yn ei lle ar gyfer Tasglu’r Cymoedd o'r cychwyn cyntaf er mwyn iddo allu cael mwy o effaith.

‘Fe ddechreuodd â bwriadau da. Llawer o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a'r deg awdurdod lleol i ddechrau. Dylid fod wedi sicrhau bod ganddo adnoddau neilltuedig. Roedd angen cyllideb o rhwng £40 miliwn a £50 miliwn. Byddai mwy o ddannedd wedi bod yn perthyn iddo os felly.’

5.13 Rhannwyd barn debyg ynghylch diffyg cronfa refeniw Tasglu’r Cymoedd a ph'un a oedd hyn wedi cyfyngu ar allu'r rhaglen i benodi'r nifer angenrheidiol o staff o'r cychwyn cyntaf. Yn achos un prosiect, sef Parc Rhanbarthol y Cymoedd, roedd yn rhaid i'r fenter benodi staff ar secondiad ar y cychwyn cyntaf er mwyn rheoli'r gwaith cyflwyno nes y sicrhawyd bod cyllid refeniw ar gael, o'r diwedd, trwy Dasglu’r Cymoedd er mwyn ei galluogi i recriwtio staff cyflogedig.

5.14 Cafwyd consensws nad oedd digon o adnoddau i dîm gweithredol Llywodraeth Cymru gan ystyried graddfa'r uchelgeisiau a bennwyd i Dasglu’r Cymoedd:

‘Cyflwynwyd Tasglu’r Cymoedd gyda Gweinidog yn cyhoeddi, ar ôl yr etholiad, “fe wnawn ni rywbeth yn y Cymoedd … byddwch yn barod amdano”. Roedd sioe deithio fawr yn perthyn iddo … ac yna dim byd … roeddwn i'n meddwl y bydden nhw'n penodi ychydig o unigolion. Ond dim ond tîm bach sydd ganddo.’

5.15 Arweiniodd hyn at osod heriau yn wyneb nifer fach o randdeiliaid wrth iddynt ymgysylltu â'r tîm, a chafwyd rhyw awgrym y daeth hynny'n anos dros amser. Awgrymwyd bod yr oedi, a fu'n gysylltiedig â chael cymeradwyaeth a chael mynediad i gyllid drwy'r tîm craidd, wedi rhwystro gallu rhai sefydliadau i gyflwyno mentrau o fewn yr amserlenni a bennwyd. Ymhlith y sylwadau a wnaed, cafwyd y canlynol:

‘mae'n ymddangos eu bod wedi'u hymestyn – os ydw i'n gofyn am gyfarfod mae fel arfer yn cymryd sawl wythnos cyn y gallaf gael dyddiad ganddynt er mwyn cwrdd’.

‘Dydw i ddim yn siŵr a yw Tasglu’r Cymoedd wedi cael adnoddau digonol gan Lywodraeth Cymru. Mewn gwirionedd, yn ôl yr hyn a welaf, dydy e

ddim. Rydyn ni'n rhedeg ar ôl ein cynffonnau. Rydym yn barod i wneud pethau, ac ni allwn wneud pethau ar amser oherwydd yr oedi gan Lywodraeth Cymru.'

5.16 Er gwaethaf y sylwadau ynghylch gallu, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch ymrwymiad tîm Tasglu'r Cymoedd o fewn Llywodraeth Cymru i'r rhaglen, a dyfynnwyd sawl enghraifft lle bu'r cyfathrebu a chydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru yn dda.

5.17 Roedd cyfathrebu a hyrwyddo'n thema gyffredin arall a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â gwaith Tasglu'r Cymoedd. Roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o bresenoldeb Tasglu'r Cymoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, gan nodi bod y presenoldeb hwnnw o natur broffesiynol a chorfforaethol ar y cyfan. Roedd nifer fach o randdeiliaid yn ymwybodol bod y presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'i gyflawni drwy brosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd, yr oedd yn hysbys fod ganddo fwy o ddilynwyr, ac amrediad ehangach ohonynt, o ganlyniad iddo fabwysiadu'r hunaniaeth 'Caru'r Cymoedd' a fodolai eisoes.

5.18 Teimlodd rhai o'r rhanddeiliaid, ar y cyfan, na fu'r gwaith o hyrwyddo'r rhaglen yn brif flaenoriaeth o safbwynt y tasglu. Nododd rhanddeiliaid a fu ynghlwm wrth amryw o fentrau nad oeddent wedi derbyn unrhyw arweiniad o ran brandio a marchnata'r mentrau a ariannwyd gan Dasglu'r Cymoedd. Roeddent hefyd yn ystyriol o'r ffaith y methwyd llawer o gyfleoedd i hyrwyddo prosiectau llwyddiannus a oedd wedi'u hariannu dan nawdd Tasglu'r Cymoedd. O ganlyniad, dadleuwyd nad oedd modd amlwg o hysbysu'r rheiny yn y Cymoedd, yn sefydliadau neu'n gymunedau, am y gwahaniaethau ymarferol yr oedd yn digwydd yn sgil gwaith Tasglu'r Cymoedd.

5.19 Awgrymodd llawer o randdeiliaid, yn enwedig y bobl hynny a oedd o'r farn bod swyddogaeth gyflwyno'n perthyn i Dasglu'r Cymoedd, y gellid fod wedi gwneud mwy o ran hyrwyddo'r hyn a oedd yn digwydd o dan faner Tasglu'r Cymoedd, yn enwedig o ystyried y graddau y mae cymunedau wedi syrffedu ar fentrau tymor byr:

‘Dydw i ddim yn meddwl y gwnaeth e werthu ei hun yn ddigon da. Dydy e ddim yn ddigon gweladwy, ac mae wedi'i chael yn anodd oherwydd hynny.’

‘Dyw'r bobl dw i wedi siarad â nhw ddim yn deall beth mae Tasglu’r Cymoedd yn ei gyflawni iddyn nhw na'r gwahaniaeth mae'n ei wneud.’

**Cydweithio rhwng sefydliadau rhanddeiliaid**

5.20 Roedd rhanddeiliaid o'r farn mai un o gryfderau allweddol Tasglu’r Cymoedd oedd ei allu i ddod â phobl a sefydliadau partner ynghyd mewn ffordd adeiladol. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod Tasglu’r Cymoedd wedi ymgysylltu ag amrediad eang o sefydliadau rhanddeiliaid er bod rhai chwaraewyr a sectorau wedi'u tangynrychioli o'u cymharu ag eraill. Y ddau brif fwlch a nodwyd oedd sefydliadau o'r sector iechyd a'r sector addysg. Nododd un o'r rhanddeiliaid, o gefndir addysgol, y gallai'r sector fod wedi ymrwymo ynghynt:

‘roedd y sector addysg yn hwyr yn ymuno â'r rhaglen, ac roedd hynny'n drueni … mae pobl yn cymryd yn ganiataol bod ysgolion yn rhy brysur i gymryd rhan, ond gadewch i ni fod y rhai i benderfynu hynny.’

5.21 Ar draws y sector iechyd, nodwyd mai dim ond un bwrdd iechyd oedd wedi ymgysylltu'n weithredol â Thasglu’r Cymoedd hyd yn hyn. Er eu bod yn cydnabod effaith ddiweddar y pandemig COVID-19 ar allu'r sector iechyd i gymryd rhan, nododd y rhanddeiliaid y gallai'r ymgysylltiad â byrddau iechyd eraill, y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gweithredu ar draws y Cymoedd fod wedi bod yn gryfach. Roedd rhai yn obeithiol y byddai hyn yn newid yn sgil ffocws Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar yr agenda iechyd a llesiant, a'i hymdrechion i ymgysylltu â'r sector iechyd cyhoeddus.

5.22 O safbwynt ei gwmpas daearyddol, awgrymwyd bod Tasglu’r Cymoedd wedi sicrhau ymgysylltiad effeithiol ar draws y mwyafrif o'r deg awdurdod lleol sy'n gweithredu ar draws rhanbarth y Cymoedd. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid o'r farn ei fod yn ymddangos bod mwy o ymgysylltu wedi digwydd â'r awdurdodau hynny y mae eu ffiniau'n gorwedd yn llwyr o fewn yr ardal a gwmpesir gan Dasglu’r Cymoedd na'r hyn a ddigwyddodd yn achos yr awdurdodau y mae ôl troed Tasglu’r Cymoedd ond yn cwmpasu

rhan o'u ffiniau. Nododd ychydig o randdeiliaid ei bod yn ymddangos bod dau o'r awdurdodau y mae ôl troed Tasglu'r Cymoedd ond yn cwmpasu rhan o'u ffiniau, sef Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, wedi ymgymryd lleiaf â gwaith Tasglu'r Cymoedd.

5.23 Roedd llawer o'r rhanddeiliaid o'r farn fod gwaith Tasglu'r Cymoedd wedi arwain at gryfhau'r cysylltiadau rhwng sefydliadau rhanddeiliaid – er bod llai o dystiolaeth ar gael i awgrymu ei fod wedi newid ymddygiadau ar gyfer y tymor hwy. Dyfynnwyd llawer o enghreifftiau o sbarduno gwaith ar y cyd rhwng sefydliadau partner, a bod Tasglu'r Cymoedd wedi helpu i hwyluso trafodaethau cychwynnol a arweiniodd at y datblygiadau hyn (e.e. digwyddiadau cymhorthfa fusnes).

5.24 Canfu'r gwaith maes fod rhai o'r awdurdodau lleol o'r farn bod ganddynt gydberthnasau gwaith gwell â'i gilydd ac â Llywodraeth Cymru ar adeg cynnal y gwaith maes, er y cafwyd cydnabyddiaeth ganddynt y gallai hynny fod a wnelo, yn rhannol, â'r ymateb ar y cyd i COVID-19 ynghyd â gwaith Tasglu'r Cymoedd. Nododd un o'r awdurdodau lleol hynny'r canlynol, mewn perthynas â'r cydweithio agosach â Busnes Cymru yn sgil y pandemig COVID-19, a dymunodd weld y dull hwn yn parhau:

'Rydym wedi cael dweud ein dweud o ran ei ddatblygu, ac mae hynny'n gweithio'n llawer gwell.'

5.25 Roedd rhai o'r rhanddeiliaid o'r farn y cafodd y cydweithio rhwng sefydliadau gwahanol ei hwyluso gan y ffaith y rhoddwyd mynediad i lawer o gronfeydd Tasglu'r Cymoedd a'u bod wedi'u dosbarthu ar draws ardaloedd pob awdurdod lleol. Pe byddai Tasglu'r Cymoedd wedi buddsoddi mewn modd sydd wedi'i dargedu'n fwy, ac ar draws nifer llai o safleoedd, neu ardaloedd awdurdod lleol detholedig, mae'n bosibl na fyddai cydweithio wedi bod mor hwylus. Dyfynnwyd sawl enghraifft o brosiectau a ariannwyd gan Dasglu'r Cymoedd a oedd wedi mabwysiadu'r dull dosbarthu hwn, gan gynnwys y canlynol:

- y prosiect Hybiau Strategol, a oedd wedi buddsoddi mewn o leiaf un safle strategol fesul ardal awdurdod lleol

- Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a ddarparodd gyllid cyfalaf i safleoedd y Pyrth Darganfod ar draws pob ardal awdurdod lleol, a
- chynllun grantiau'r Economi Sylfaenol.

5.26 Nododd rhanddeiliaid sawl enghraifft o weithio ar y cyd effeithiol rhwng sefydliadau partner, gan gynnwys:

- digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd gan yr is-grŵp trafnidiaeth, yr oeddent wedi'u mynychu'n dda gan wleidyddwyr, sefydliadau rhanddeiliaid (fel Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr trafnidiaeth) a'r cyhoedd
- cynllunio creu lleoedd gyda chydweithrediad rhwng cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y sectorau trafnidiaeth, adfywiad a thai, ac awdurdodau lleol
- cydweithredu rhwng awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Grant Cartrefi Gwag a'r fenter Pyrth Darganfod, sy'n ffurfio rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd
- gweithio ar y cyd rhwng amryw o bartneriaid, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, Busnes Cymru, Coleg y Cymoedd, y Ffederasiwn Busnesau Bach, awdurdodau lleol, Cyflymu Cymru, a Chreu Sbarc ymhlith eraill wrth drefnu digwyddiadau cymhorthfa fusnes a ‘Pitch It’
- cydweithio rhwng Coleg y Cymoedd a Busnes Cymru er mwyn cynnal a hyrwyddo dosbarthiadau meistr Sefydliad Technoleg Massachusetts, a arweiniodd at gyfle i Fusnes Cymru ymwneud â chynulleidfa newydd o fusnesau.

5.27 Amlinellir pedair enghraifft benodol o gydweithio isod:

**Cydweithio rhwng awdurdodau lleol ar gyfer y Cynllun Grant Cartrefi Gwag**

Amlygodd rhanddeiliaid y cydweithio rhwng awdurdodau lleol ar gyfer y Cynllun Grant Cartrefi Gwag gan Dasglu’r Cymoedd fel enghraifft o arfer da. Roedd nodweddion y cydweithio'n cynnwys y canlynol:

- rhannu syrfewyr ar draws y rhanbarth er mwyn cefnogi'r awdurdodau hynny nad oedd y gallu hwn yn ei le ganddynt
- awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant i staff ar draws awdurdodau eraill
- safoni disgrifiadau swydd syrfewyr a mabwysiadau cyfradd tâl gytunedig
- cytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth unigol ar gyfer y cynllun.

Awgrymodd rhanddeiliaid fod y dull hwn wedi sicrhau mwy o gysondeb o ran sut y cafodd menter Tasglu’r Cymoedd ei chymhwyso ar draws y rhanbarth. Rhoddwyd canmoliaeth am y gwaith a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel yr awdurdod arweiniol fel a ganlyn:

‘y tîm hwnnw a'i sefydlodd mewn gwirionedd, ac mae wedi bod yn dda cydweithio ag e. Roedd rhaglen eisoes ar waith gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac roedd eisoes yn gwybod beth roedd yn ei wneud fel y gallen ni ei gyflwyno'n ehangach.’

**Cydweithio ar brosiect peilot trafnidiaeth gymunedol**

Mabwysiadwyd dull ar y cyd er mwyn sefydlu prosiect peilot trafnidiaeth gymunedol â'r nod o fynd i'r afael â'r ffaith mai trafnidiaeth gymunedol oedd ‘un o'r materion pwysicaf’ a godwyd yn ystod y broses ymgynghori. Bu awdurdodau lleol, sefydliadau trafnidiaeth gymunedol, staff o Lywodraeth Cymru, ac arbenigwyr o sefydliadau'r trydydd sector ynghlwm wrth y prosiect peilot ar gyfer Cwm Nedd. Cafodd y peilot ei asesu a'i gostio'n llawn gan y grŵp, ac roedd y cyfranwyr o'r farn ei fod yn enghraifft dda o gynllun cydlynol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, nododd rhanddeiliaid fod y peilot wedi'i atal yn sgil dyrannu adnoddau ariannol i ymdrechion lleddfu effeithiau COVID-19, ond bu awydd ail-ymgymryd â'r syniad yn y dyfodol.

**Cydweithio rhwng Busnes Cymru a'r sector gofal**

Drwy Dasglu’r Cymoedd, datblygwyd cydweithrediad diddorol rhwng y sector gofal a Busnes Cymru, ar ôl i Is-adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Busnes Cymru er mwyn nodi sut y gallai darparwyr gofal cymdeithasol a oedd wedi'u lleoli yn y Cymoedd ddod yn fwy cynaliadwy. Ceisiodd y peilot wella'r ymgysylltiad â chartrefi gofal a darparwyr gofal cartref, a'r cymorth a roddir iddynt, ar draws tair ardal awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful). Golygodd cydweithio rhwng Busnes Cymru, Is-adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, timau comisiynu gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, y GIG ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bu gwaith cynnal digwyddiadau ymgysylltu i recriwtio busnesau ynghlwm wrth y peilot, ynghyd â sesiwn ddiagnostig ddilynol rhwng busnesau'r sector gofal a chynghorwyr Busnes Cymru, a chyfres o weithdai a gynhaliwyd ar destunau yr oedd sesiynau diagnostig wedi datgelu eu bod yn feysydd pryder ar gyfer darparwyr y sector gofal. Roeddent yn cynnwys cyllid, cyllidebau, tendro, a rheoli adnoddau dynol. Ar y dechrau, roedd Busnes Cymru wedi ceisio cysylltu â darparwyr gofal yn uniongyrchol, ond ni chafodd lawer o ymateb gan y sector. Arweiniodd y cydweithio rhwng swyddogion comisiynu gofal cymdeithasol o fewn awdurdodau lleol a Busnes Cymru at gynyddu'r ddarpariaeth ar draws yr awdurdodau a dargedwyd. Ar ôl cyflwyno'r prosiect peilot yn llwyddiannus, cafodd ei ymestyn i ddwy ardal awdurdod lleol arall, sef Castell-nedd Port Talbot a Chaerdydd.

Barnwyd bod y prosiect wedi gwella dealltwriaeth Busnes Cymru o'r sector gofal cymdeithasol a'r problemau sy'n wynebu busnesau gofal cymdeithasol. Barnwyd hefyd ei fod wedi helpu i ymestyn ei ddealltwriaeth o sut i ymgysylltu â busnesau gofal cymdeithasol yn llwyddiannus.

**Cydweithio trwy'r rhaglen Cynfyfyrwyr**

Fel rhan o'r rhaglen Cynfyfyrwyr, daeth Tasglu’r Cymoedd ag ysgolion ynghyd o bob rhan o ardal y Cymoedd er mwyn trafod cyfleoedd. Nodwyd bod hwn yn gyfle prin i ysgolion gwrdd ag ysgolion eraill o'r tu allan i ardal eu hawdurdod lleol ac ardal eu consortiwm addysgol. Rhoddodd gyfle iddynt gydweithio ag ysgolion a oedd yn wynebu problemau tebyg iddynt eu hunain drwy rinwedd y ffaith eu bod wedi'u lleoli yn ardal y Cymoedd.

**Aliniad rhwng Tasglu'r Cymoedd a dulliau cenedlaethol neu ranbarthol eraill**

5.28 Archwiliodd sawl rhanddeiliad y graddau yr oedd Tasglu'r Cymoedd wedi gweithio gyda'r ddwy Fargen Ddinesig, pan ofynnwyd am sylwadau ynghylch cydweithio â strwythurau rhanbarthol. Nodwyd bod Bargen Ddinesig Caerdydd wedi'i chynrychioli yn y Tasglu Gweinidogol, a olygodd y byddai'r aliniad rhwng y ddau strwythur wedi cael ei archwilio, ond, er hynny, teimlwyd na welwyd unrhyw gydweithio gwirioneddol yn deillio o hyn. Cafwyd awgrym cyffredin ymhlith y rhanddeiliaid y methwyd cyfle wrth beidio â chydweithio â phartneriaethau rhanbarthol, fel y Bargeinion Dinesig, er gwaetha'r ymdrechion i asesu cyfleoedd posibl.

5.29 Cafwyd cydnabyddiaeth eang hefyd fod yr agenda rhanbartholi gynyddol, a sefydlu'r cydbwyllgorau corfforedig fel mecanweithiau statudol newydd ar gyfer sicrhau cydweithio rhanbarthol ar draws llywodraeth leol, yn codi cwestiynau ynghylch cydnawsedd ôl troed Tasglu'r Cymoedd, gan ystyried y byddai'n ymestyn ar draws dau ranbarth. Disgwylir y bydd y cydbwyllgorau corfforedig arfaethedig yn arfer swyddogaethau y bu'n ffocws gwaith Tasglu'r Cymoedd mewn perthynas â chynllunio datblygu strategol, cynllunio trafnidiaeth ranbarthol, a llesiant economaidd. Awgrymodd llawer o randdeiliaid fod angen i Dasglu'r Cymoedd fyfyrio ar ddatblygiad y cyd-bwyllgorau corfforedig ac ystyried pa effaith y câi hyn ar yr angen i gael endid yn y Cymoedd yn y dyfodol, a'i gylch gwaith.

# 6. Canfyddiadau o’r gwaith maes: Cyflawniadau a'r gwahaniaeth a wnaed

**Canfyddiadau allweddol**

Roedd rhanddeiliaid o'r farn ganlynol:

- roedd yn anodd ffurfio barn gadarn ynghylch y cynnydd a wnaed gan Dasglu’r Cymoedd, yn anad dim gan nad oedd ganddo ddangosyddion penodol ar waith i asesu perfformiad
- roedd cynnydd wedi'i rwystro gan effaith y pandemig COVID-19 yn ystod 2020, yn enwedig prosiectau neu syniadau Tasglu’r Cymoedd a oedd ar gychwyn, neu'n cael eu datblygu, ar ddechrau'r pandemig
- roedd Tasglu’r Cymoedd wedi dod â sefydliadau ynghyd mewn modd effeithiol, a oedd yn arwain at fwy o gydweithredu a chydgynhyrchu'n digwydd, gan gynnwys gweithio traws-lywodraethol rhwng adrannau gwahanol Llywodraeth Cymru
- roedd Tasglu’r Cymoedd wedi hyrwyddo a chefnogi achos y Cymoedd mewn modd effeithiol, a dyfynnwyd sawl enghraifft lle roedd trafodaethau dan arweiniad Tasglu’r Cymoedd wedi dylanwadu ar bolisïau, dulliau, a phenderfyniadau cyllid prif ffrwd presennol
- roedd y mentrau a gefnogwyd gan Dasglu’r Cymoedd wedi bod ar raddfa fach ac ag effaith isel, yn bennaf, gan adlewyrchu'r cyllid a gallu cyfyngedig sydd ar gael
- bod y Cynllun Grant Cartrefi Gwag a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd yn ddau o brosiectau mwyaf nodedig a llwyddiannus Tasglu’r Cymoedd
- roedd bod yn gysylltiedig â Thasglu’r Cymoedd wedi rhoi hwb a statws uwch i grwpiau cymunedol a mentrau a oedd eisoes ar

waith, a arweiniodd yn ei dro at fwy o ddiddordeb a chefnogaeth gan sefydliadau eraill

- cafodd Tasglu’r Cymoedd effaith uniongyrchol eithaf cyfyngedig ar gymunedau'r Cymoedd. Credwyd bod effeithiau cadarnhaol yn gysylltiedig yn bennaf â mentrau fel y Cynllun Cartrefi Gwag, prosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol, a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.

6.1 Bydd y bennod hon yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cynnydd a wnaed gan Dasglu’r Cymoedd a'r graddau ei fod yn cyflawni ei nodau a'i amcanion. Bydd hefyd yn ystyried llwyddiannau mentrau penodol a'r gwahaniaeth a wnaed i bolisïau a fodolai eisoes ynghyd a'r gwahaniaeth i gymunedau'r Cymoedd. Bydd y bennod yn nodi ychydig o enghreifftiau dangosol o'r cyflawniadau hyn ar lefel rhaglen a lefel leol, ac ni fwriedir iddi fod yn adroddiad am bob un o weithgareddau Tasglu’r Cymoedd.

**Cynnydd cyffredinol**

6.2 Cafodd llawer o'r rhanddeiliaid anhawster i ffurfio barn gadarn ynghylch y cynnydd yr oedd Tasglu’r Cymoedd wedi'i gyflawni yn gyffredinol, yn anad dim gan nad oedd mesurau na dangosyddion penodol ar waith ganddo y gallent eu hystyried. Roedd rhai ohonynt yn ymwybodol bod Tasglu’r Cymoedd wedi pennu targed creu swyddi uchelgeisiol, ond nid oeddent wedi gallu gweld, i raddau helaeth, pa gynnydd a wnaed yn erbyn y dangosydd hwn.

6.3 Cafwyd cydnabyddiaeth eang gan y rhanddeiliaid fod dull gwaith Tasglu’r Cymoedd o weithredu mentrau ar sail traws-bolisi wedi golygu y byddai cynnydd bob amser yn cymryd amser hwy oherwydd yr angen i sicrhau cymeradwyaeth, ynghyd â chyllid, gan amrediad ehangach o'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau nag y byddai fel arall. Er hyn, roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn briodol, mewn egwyddor, bod Tasglu’r Cymoedd wedi ceisio dilyn y dull hwn o weithio.

6.4 Cynigiodd rhanddeiliaid amrediad o enghreifftiau ac adborth cadarnhaol a awgrymodd fod Tasglu’r Cymoedd wedi gwneud cynnydd da wrth ddod â sefydliadau ynghyd, a bod hynny'n arwain at ymdrechion effeithiol i gydweithio a chydgynhyrchu. Fodd bynnag, barnwyd nad oedd yr ymdrechion hyn bob amser yn trosi'n bethau cadarn a gyflawnwyd, a bod hynny wedi arwain rhai i farnu bod ‘mwy o drafod na gweithredu’ yn perthyn i Dasglu’r Cymoedd. Roedd y rhanddeiliaid hefyd o'r farn bod Tasglu’r Cymoedd wedi gwneud cynnydd da o safbwynt nodi syniadau newydd, ac roedd wedi bod yn barod i gymryd risgiau, a galluogi sefydliadau rhanddeiliaid i ariannu cysyniadau arloesol a modelau arloesol o weithio.

6.5 Cafwyd consensws clir bod y cynnydd wedi'i atal yn ystod 2020 yn sgil effaith y pandemig COVID-19 ar waith Tasglu’r Cymoedd, wrth i sefydliadau orfod dargyfeirio adnoddau ac ymdrechion i ffwrdd o flaenoriaethau Tasglu’r Cymoedd er mwyn ymateb i effaith yr argyfwng. Yn ystod yr adeg hon, nododd rhai o aelodau'r is-weithgorau fod eu hymgysylltiad â Thasglu’r Cymoedd wedi lleihau. Er enghraifft, nododd un o aelodau gweithgor ei fod yn ansicr a oedd Tasglu’r Cymoedd yn dal i fodoli gan nad oedd wedi clywed unrhyw beth ers mynychu cyfarfod diwethaf yr is-grŵp ym mis Ionawr eleni.

6.6 Cafodd y pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar gynnydd y prosiectau neu syniadau a oedd ar gychwyn, neu'n cael eu datblygu, ar ddechrau'r pandemig. Cynigiodd rhanddeiliaid sawl enghraifft o'r mathau hyn o syniadau a oedd naill ai wedi'u hatal neu a oedd ‘wedi mynd i'r gwellt’ yn ystod 2020. Er enghraifft, nododd un o'r rhanddeiliaid nad oedd y cynigion ar gyfer prosiect peilot ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, yr oedd wedi'u hasesu a'u costio'n llawn cyn i'r pandemig COVID-19 ddechrau, wedi'u datblygu, a'i bod yn ymddangos yn annhebyg y byddai hynny'n digwydd. I'r un graddau, cafodd COVID-19 effaith ar brosiectau Economi Sylfaenol y Gronfa Her, ac roedd yn hysbys eu bod wedi'u hatal. Er enghraifft, bu achos o atal prosiect canol tref â'r bwriad o ddarparu cyfleoedd manwerthu dros dro.

6.7 Cafodd rhanddeiliaid yr argraff hefyd nad oedd ychydig o syniadau cynharach Tasglu’r Cymoedd wedi'u gwireddu gan ei bod ‘yn anodd iawn

gweld eu hynt’. Ystyriwyd bod y rhain yn cynnwys y prosiect Swyddi Gwell yn Nes at Adref, a hybiau cymunedol, ynghyd â chynllun prentisiaeth a rennir.

**Y graddau y mae Tasglu’r Cymoedd yn cyflawni ei nodau a'i amcanion**

6.8 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid o'r farn fod Tasglu’r Cymoedd yn cyflawni ei amcan o ddod â llunwyr polisi a sefydliadau rhanddeiliaid gwahanol ynghyd, a hwyluso'r ddeialog rhyngddynt, a hwyluso trafodaethau ar draws meysydd polisi gwahanol.

6.9 Roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn gyffredinol bod Tasglu’r Cymoedd yn hyrwyddo achos y Cymoedd yn llwyddiannus ac yn effeithiol wrth ddangos ac eirioli dros yr angen i sicrhau ymyrraeth sy'n benodol i'r Cymoedd, a hynny ar draws dulliau prif ffrwd. Daliodd rhai ei fod yn llwyddiannus wrth sicrhau bod llais y Cymoedd yn cael ei glywed ‘o gwmpas y byrddau cywir’ a bod hyn wedi arwain at sefyllfa lle bo'r ardal wedi ennill proffil uwch, yn wleidyddol ac o ran polisi:

‘Pe na fyddai'r tasglu'n bodoli, ni fyddech yn clywed cymaint o siarad ynghylch y Cymoedd yn y Senedd ac yn ystod trafodaethau'r grwpiau rhanddeiliaid trawsbleidiol.’

6.10 Cafwyd rhywfaint o bryder gan ychydig o randdeiliaid bod proffil a dylanwad Tasglu’r Cymoedd wedi lleihau dros amser, a bod hyn wedi'i amlygu drwy benodi dirprwy weinidog, yn hytrach na gweinidog, i fod yn gadeirydd Tasglu’r Cymoedd.

6.11 Cafwyd barn fwy cymysg ynghylch y gwahaniaeth gwirioneddol yr oedd Tasglu’r Cymoedd yn ei wneud, a defnyddiodd rhanddeiliaid eu canfyddiad o fentrau a phrosiectau penodol i lywio'r safbwyntiau hyn.

6.12 Mae neges allweddol a gafwyd gan drawstoriad o randdeiliaid yn awgrymu, er bod Tasglu’r Cymoedd wedi gallu ysgogi a chefnogi'r gwaith o gyflwyno amrediad eang o fentrau, mae'r rhain wedi bod ar raddfa fach ac ag effaith isel yn bennaf. Awgrymwyd y gallai hyn adlewyrchu'r cyllid a gallu cyfyngedig sydd ar gael yn Nhasglu’r Cymoedd. Roedd sylwadau gan ddau rhanddeiliad yn ategu safbwyntiau llawer un arall:

‘Mae popeth wedi ymwneud â phrosiectau ar raddfa fach. Dybiwn i ei fod i gyd yn cyfri, ond byddech yn disgwyl i Dasglu’r Cymoedd fod yn ariannu pethau â chig iddyn nhw, ac ar raddfa.’

‘Bu'r neges yn un gymysg – ar y dechrau bu pob math o sôn am fod yn strategol ac am adeiladu'r safleoedd hyn ar raddfa ac yn gyflym – dechreuodd ennill tir, ac yna aeth popeth o chwith ac mae wedi'i wyro bellach tuag at ariannu ar raddfa fach.’

**Cyflawniadau ar lefel prosiect**

6.13 Amlygodd rhanddeiliaid ddau brosiect gan Dasglu’r Cymoedd fel rhai nodedig llwyddiannus, sef y Cynllun Grant Cartrefi Gwag sy'n cyfrannu at thema blaenoriaeth tai Tasglu’r Cymoedd, a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd:

**Blaenoriaeth 2, Thema 4 Tai: Cynllun Grant Cartrefi Gwag**

Cafodd y Cynllun Grant Cartrefi Gwag, a oedd eisoes ar waith ar draws ardal Rhondda Cynon Taf, ei gyflwyno'n ehangach i ardaloedd awdurdodau lleol eraill drwy waith Tasglu’r Cymoedd. Gofynnodd Tasglu'r Cymoedd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf weinyddu'r cynllun ledled y Cymoedd, er mwyn sicrhau bod model cyson wedi'i gymhwyso.

I ddechrau, cynigiwyd grant eiddo gwag o hyd at £20,000 i berchenogion eiddo fel rhan o'r cynllun, er mwyn trosi cartrefi gwag yn adeiladau y gellir byw ynddynt, ond cafodd hyn ei gynyddu i £25,000 er mwyn darparu ar gyfer costau ynni adnewyddadwy. Yn ystod cam peilota'r gwaith cyflwyno o fewn ardal Rhondda Cynon Taf, rhwng 2016 a mis Chwefror 2019, ailgyflwynwyd 130 o gartrefi gwag i ddefnydd preswyl. Roedd galw cryf am y cynllun yn ystod y cam cyntaf o'i gyflwyno, a derbyniwyd 319 o geisiadau rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020, a dyrannwyd y cyllid o £4.5 miliwn yn gyfan gwbl. Bu oedi yn yr ail gam cyflwyno yn sgil y pandemig COVID-19, ond disgwylir dyrannu'r gyllideb o £10 miliwn a neilltuwyd yn gyfan gwbl.

Er nad yw'r cynllun wedi'i werthuso'n ffurfiol, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y fenter yn llwyddiannus gan ei bod yn rhoi cymorth uniongyrchol i brynwyr tai drwy sicrhau bod buddsoddi mewn tŷ yn opsiwn dichonadwy. Roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn bod y cynllun yn llwyddiannus o'r safbwynt ei fod yn helpu i fynd i'r afael â'r effaith negyddol y mae tai

segur, nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw, yn ei chael ar gymunedau, a'i fod yn cynyddu'r stoc o dai ar lefel leol.

At hynny, roedd rhanddeiliaid o'r farn ei fod yn effeithiol gan fod arfer da o un awdurdod wedi'i gyflwyno'n ehangach i ardaloedd eraill:

‘Roedd hwnnw'n fodel doedden ni ddim wedi'i gael o'r blaen, ac mae'n gweithio. Mae'n adeiladu ar fodel o arfer da.’

Mae'r ffaith fod y cynllun yn bodoli hefyd wedi dylanwadu ar y penderfyniadau cyllido tai a wnaed gan awdurdodau lleol, gan yr oedd yn ofynnol iddynt gyflwyno cyllid cyfatebol i fuddsoddiad Tasglu’r Cymoedd a ddarparwyd drwy'r cynllun. Mewn un achos, er enghraifft, mae un awdurdod lleol, sydd wedi dyrannu cyllid cyfatebol i'r cynllun, yn dadlau na fyddai wedi digwydd fel arall.

Er bod yr awdurdod sy'n cynnal y cynllun yn bwriadu parhau i wneud hynny ar ôl i raglen Tasglu’r Cymoedd ddod i ben, roedd awdurdodau lleol eraill yn ansicr p'un a allent barhau i ariannu cynllun tebyg er gwaetha'r ffaith eu bod yn ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol, ac felly ceir cwestiynau ynghylch ei gynaliadwyedd.

**Blaenoriaeth 3, Thema 7 Fy nghymuned leol: Parc Rhanbarthol y Cymoedd**

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gydran allweddol o drydedd thema Tasglu’r Cymoedd sy'n ymwneud â Fy Nghymuned Leol. Fe'i sefydlwyd fel prosiect dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae tîm cyflwyno craidd bach ar waith ganddo. Mae'r prosiect wedi sicrhau cyllid cyfalaf a refeniw o £7.7 miliwn drwy Dasglu’r Cymoedd er mwyn cyflwyno gweithgareddau ar draws tair ffrwd waith (tirwedd, diwylliant a hunaniaeth; rhagnodi cymdeithasol a llesiant; a chymunedau a menter). Mae ganddo hefyd gylch gwaith sy'n cynnwys archwilio opsiynau hirdymor ar gyfer sefydlu math o barc rhanbarthol, ac mae wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a fydd yn ei alluogi i barhau y tu hwnt i gyfnod gweithredol Tasglu’r Cymoedd, hyd at 2023, er mwyn cyflawni ei amcanion tymor hwy. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn elfen allweddol o waith Tasglu’r Cymoedd y byddai'n parhau i'r hirdymor ac a fyddai'n ffurfio rhan o waddol Tasglu’r Cymoedd.

*Pyrth Darganfod*

Roedd rhanddeiliaid o'r farn mai un o gyflawniadau allweddol Parc Rhanbarthol y Cymoedd bu'r buddsoddiadau cyfalaf a wnaed ar draws

12 safle o Byrth Darganfod, sef parciau gwledig yn bennaf, ar gyfer gwella cyfleusterau fel meysydd chwarae, canolfannau ymwelwyr, cyfleusterau, llwybrau cerdded a llwybrau beicio. Er bod rhai o'r rhain wrthi'n cael eu datblygu ar adeg cynnal y gwaith maes, cyfeiriodd rhanddeiliaid at y rheiny a oedd eisoes wedi'u cwblhau:

‘gallwch weld pethau yng Nghwm Dâr – gwesty wedi'i adnewyddu a maes chwarae. Llwybr beicio i deuluoedd. Cawsom bethau yno yn ystod y 18 mis diwethaf ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr.’

Er hynny, nid oedd rhanddeiliaid yr un mor eglur o ran y gwerth ychwanegol a ddaeth yn sgil y buddsoddiad hwn o safbwynt y cydweithrediad rhwng safleoedd y Pyrth Darganfod, a nodwyd nad oedd y cyllid wedi arwain at unrhyw fuddion gwirioneddol ehangach, hyd yn hyn, heblaw'r rheiny a ddaeth yn sgil y buddsoddiadau uniongyrchol.

6.14 Roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn fod tri datblygiad posibl o dan Flaenoriaeth 2 yn rhai sy'n ymddangos yn addawol. Roedd y rhain yn cynnwys y rhaglen Cynfyfyrwyr (Blaenoriaeth 2, Thema 5), y Rhaglen Trafnidiaeth Integredig Seiliedig ar Alw (Blaenoriaeth 2, Thema 6), a'r Peilot Cartrefi Gwag ar gyfer Deiliaid Tenantiaeth (Blaenoriaeth 2, Thema 4), er nad oeddent wedi'u cyflwyno eto na'u bod ychwaith wedi cyflawni unrhyw ganlyniadau penodol. Ystyrir y rhain yn eu tro, fel a ganlyn:

**Blaenoriaeth 2, Thema 5 Cronfa Arloesi: Rhaglen Cynfyfyrwyr**

Nododd Tasglu’r Cymoedd gyfle i ymestyn ac adeiladu ar ddulliau cyn-fyfyrwyr effeithiol yr oedd eisoes yn hysbys eu bod ar waith mewn un ysgol (Ysgol Lewis Pengam) ac un coleg (Coleg y Cymoedd) o fewn ardal y Cymoedd. Nododd rhanddeiliaid fod cyfle i wneud defnydd gwell o'r rhwydwaith o bobl a oedd eisoes wedi mynychu ysgol neu goleg yn y Cymoedd, fel modelau rôl i gymell pobl ifanc ynghylch yr hyn y gallent ei gyflawni, o bosib, wrth fyw a gweithio yn y Cymoedd. Cynigiodd cyfarfod cychwynnol, y gwahoddwyd ysgolion eraill i'w fynychu, gyfle i rannu arferion cyfredol a phennu lefelau o ddiddordeb.

Ers hynny, mae'r cysyniad wedi'i ddatblygu gan Gyrfa Cymru, ond er ei fod yn debygol o gael ei weithredu'n fuan, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y syniad wedi'i ddal yn ôl ar adeg cynnal y gwaith maes, a hynny'n rhannol yn sgil effeithiau COVID-19 ond hefyd oherwydd y bu'n heriol cytuno ar fodel cyflwyno priodol.

**Blaenoriaeth 2, Thema 6 Trafnidiaeth: Prosiect peilot Trafnidiaeth Integredig Seiliedig ar Alw**

Bydd y fenter hon rhwng Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn golygu cyflwyno gwasanaeth bws hyblyg ar hyd dau lwybr yn y sir. Bwriedir y bydd y prosiect yn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus a godwyd gan aelodau o'r gymuned yn ystod ymarfer ymgysylltu Tasglu'r Cymoedd. Bydd dinasyddion yn gallu galw bws o safleoedd bws rhithwir, sy'n golygu y bydd gwasanaeth bysiau mwy hyblyg ar waith a fydd yn ei gwneud yn bosibl i bobl gael eu casglu a'u gollwng mewn mannau eraill heblaw'r safleoedd bws neilltuedig. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn ariannu'r fenter hon o'i chronfeydd presennol, a dyfarnodd gontract ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn yn ddiweddar. Roedd yn rhy gynnar i ffurfio barn ynghylch llwyddiant y fenter gan nad oedd y gwasanaeth yn gwbl weithredol ar adeg cynnal y gwaith maes.

Cafodd dull tebyg ei brofi o'r blaen yn rhannau eraill o Gymru (gan gynnwys yn ardal Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro a Chonwy) ond ni fyddai wedi digwydd ym Mlaenau Gwent oni chafwyd cymhelliant gan Dasglu'r Cymoedd a'r angen cymunedol cryf a fynegwyd drwy ei ymarfer ymgysylltu.

**Blaenoriaeth 2, Thema 4 Tai: Peilot Cartrefi Gwag ar gyfer Deiliaid Tenantiaeth**

Mae peilot Cartrefi Gwag ar gyfer Deiliaid Tenantiaeth wedi'i ddatblygu drwy Dasglu'r Cymoedd, a hynny, i raddau helaeth, fel allgynnyrch i'r Cynllun Cartrefi Gwag ar gyfer Perchen-feddianwyr. Cafodd pedwar awdurdod lleol eu gwahodd i gymryd rhan, y mae tri ohonynt (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a Chyngor Abertawe) wedi ymrwymo i'w gyflwyno ac wedi darparu cyllid. Ni chymerodd yr awdurdodau lleol hyn ran yn y Cynllun Cartrefi Gwag oherwydd pryderon y byddai ond ar gael ar draws ardaloedd cyfyngedig o fewn eu sir. Nid yw'r peilot yn weithredol eto yn sgil effaith COVID-19, ond awgrymodd rhanddeiliaid fod ymrwymiad ar ran pob sefydliad i sicrhau y caiff ei gyflwyno maes o law. Gan ystyried bod gwaith datblygu'r peilot yn mynd rhagddo o hyd, ni chyflawnwyd unrhyw ganlyniadau, ond mae rhanddeiliaid yn obeithiol y bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r swm o dai rhent fforddiadwy ar draws y tair ardal awdurdod lleol. Yn bennaf, rôl Tasglu'r Cymoedd o safbwynt hyn oedd

nodi cyfle a gyrru'r syniad yn ei flaen, gan nad yw wedi ariannu'r peilot yn uniongyrchol.

6.15 Cafwyd cydnabyddiaeth rhanddeiliaid na fu Cronfa Her yr Economi Sylfaenol yn brosiect penodol i'r Cymoedd neu i Dasglu’r Cymoedd, ond ei fod, yn hytrach, yn ddull cenedlaethol yr ategwyd iddo gyda chyllid ychwanegol gan Dasglu’r Cymoedd. Ffocws y gronfa yw profi dulliau newydd ac arloesol, codi proffil yr economi sylfaenol, ac ysgogi trafodaeth a dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Er y barnwyd bod y dull hwn wedi bod yn briodol i raddau helaeth, bach iawn o dystiolaeth y bu gan randdeiliaid i'w defnyddio ynghylch y gwahaniaeth yr oedd adnoddau Tasglu’r Cymoedd wedi'i wneud. Er hyn, rhannodd Cymdeithas Tai Rhondda yr enghraifft ganlynol o sut cafodd arian o'r Gronfa Her ei roi ar waith:

**Blaenoriaeth 1, Thema 2 Yr Economi Sylfaenol: Prosiect Cronfa Her**

Mae un prosiect a ariannwyd gan yr Economi Sylfaenol a gyflwynwyd gan Gymdeithas Tai Rhondda ar gyfer cyllid o tua £100,000 wedi cynnwys penodi swyddog datblygu i gefnogi busnesau lleol yn Nhonypandy a Threherbert. Mae'r prosiect wedi cefnogi ailsefydlu cymdeithas fasnach ac wedi cynnal ymgyrch Nadolig ar-lein ar gyfer manwerthwyr y stryd fawr. Bu'r prosiect yn gweithredu mewn amgylchiadau anodd iawn pan oedd ar waith yn ystod 2020, a chafodd hyn effaith ar ei gyflawniadau. O ran allbynnau, mae'r prosiect yn gweithio tuag at gael defnyddio rhai o adeiladau'r stryd fawr unwaith eto, ac mae'n canolbwyntio ar bedwar prif adeilad i gyflawni hyn, yn cynnwys prosiect adfywio’r Siediau Mawr yn Nhonypandy.

Mae'r prosiect hefyd wedi caniatáu i'r gymdeithas dai archwilio a gweithredu newidiadau i'w pholisïau a phrosesau caffael mewnol er mwyn cefnogi darparwyr lleol yn well. Mae polisi newydd bellach ar waith sy'n canolbwyntio ar ymrwymiadau budd cymunedol. Y bwriad yw hyrwyddo cyfleoedd tendro yn y dyfodol i fusnesau lleol mewn digwyddiadau cwrdd â'r prynwr, ar ôl COVID-19.

Heb i arian Tasglu'r Cymoedd gael ei sianelu trwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol, ni fyddai'r gymdeithas dai wedi bod mewn sefyllfa i flaenoriaethu'r datblygiadau hyn.

6.16 Ar draws y maes blaenoriaeth entrepreneuriaeth a chymorth busnes, ystyriwyd bod dwy fenter ar raddfa fach wedi bod yn llwyddiannus, yn ychwanegol at y gwaith rhwng Busnes Cymru a'r sector gofal cymdeithasol (a nodir ym Mhennod 5):

**Blaenoriaeth 1, Thema 3 Entrepreneuriaeth a Chymorth Busnes: Menter Pitch It**

Cydweithiodd Creu Sbarc, Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru ac Angles Invest Wales i drefnu digwyddiad Pitch It ar gyfer ardal y Cymoedd, gan dynnu ar lwyddiant digwyddiad tebyg yng Nghaerdydd. Pwrpas y fenter oedd rhoi cyfle i fusnesau gyflwyno eu busnes am fenthyciad arian a fyddai'n cael ei ddarparu gan Angel Investors a Banc Datblygu Cymru. Cafodd galwad i fusnesau sydd angen buddsoddiad ymateb da, gyda rhyw 80 busnes yn mynegi diddordeb. Yn dilyn proses llunio rhestr fer, gwahoddwyd ugain busnes i'r rownd gynderfynol ac aeth pump ymlaen i'r cam olaf. At ei gilydd, sicrhaodd dau fusnes fenthyciad a manteisiodd nifer fach o fusnesau ar y cynnig o gymorth mentora. Cafodd y busnesau na chafodd fuddsoddiad fudd o adborth yr entrepreneuriaid a buddsoddwyr busnes.

**Blaenoriaeth 1, Thema 3 Entrepreneuriaeth a Chymorth Busnes: Peilot Rhwydwaith Cymorth Cymheiriaid**

Comisiynodd Busnes Cymru raglen cymorth cymheiriaid, gan gynnwys cyfres o gyfarfodydd rhwydwaith undydd misol, i ddeg arweinydd busnes wedi'u lleoli yn y Cymoedd. Roedd y cyfarfodydd rhwydwaith yn cynnwys siaradwyr gwadd, sesiynau dysgu gweithredol a chlinigau cymheiriaid. Canfu gwerthusiad annibynnol o’r fenter[16] fod adborth cyfranogwyr am y sesiynau yn gadarnhaol iawn a bod eu hymglymiad â’r rhwydwaith wedi helpu i roi safbwyntiau newydd iddynt, magu eu hyder fel arweinwyr, a’u gwneud yn fwy gwydn yn wyneb heriau busnes. Gorfodwyd y rhwydwaith i gwrdd yn rhithwir oherwydd y pandemig COVID-19 ac mae'r gwerthusiad yn awgrymu nad oedd y cyfrwng hwn yn addas ar gyfer cyflwyno cyflwyniadau rhyngweithiol na thrafodaethau digymell rhwng cyfranogwyr.

[16] Dateb (2020) Gwerthusiad o Beilot Rhwydwaith Cymorth Cymheiriaid Tasglu'r Cymoedd (heb ei gyhoeddi)

Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y rhwydwaith yn effeithiol wrth helpu i ddatblygu gallu arwain o fewn busnesau ar draws ardal Tasglu'r Cymoedd. Cafodd hefyd effeithiau cadarnhaol ar y busnesau a arweiniodd y cyfranogwyr. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno strwythurau ac arferion mwy proffesiynol, mynd i'r afael â phroblemau hirdymor, gwella dulliau sefydliadau ar gyfer marchnata a chysylltiadau cwsmeriaid, a rhoi trefniadau ar waith i hwyluso twf.

6.17 Bwriad cynnar Tasglu'r Cymoedd oedd creu saith hwb strategol ar draws Cymoedd De Cymru i ganolbwyntio arian cyhoeddus a darparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Eu bwriad oedd alinio'n agos â blaenoriaethau rhanbarthol y rhaglenni Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ac Adeiladu ar gyfer y Dyfodol. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y dull hybiau strategol wedi dod i ben yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

**Blaenoriaeth 1, Thema 1 Hybiau Strategol**

Awgrymodd rhanddeiliaid fod y mapio ar gyfer hybiau strategol wedi cychwyn yn dda gyda gwir ymgais i geisio alinio hybiau strategol â chreu swyddi. Yr amcan oedd bod yn strategol a chanolbwyntio ar ardaloedd allweddol ar y sail y byddai'r buddion yn 'lledaenu' o'r canolbwyntiau hyn. Roedd y buddsoddiad arfaethedig yn y Metro ar y pryd hefyd wedi annog dull mwy cydgysylltiedig i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd pwysig a fyddai'n dod i'r amlwg mewn trefi fel Caerffili, Pontypridd a Chwmbrân, o drawsnewid y gwasanaethau rheilffordd.

Er ei fod yn gysyniad anodd ei werthu i ddechrau, yn enwedig i gynghorwyr lleol a oedd am weld hwb strategol ym mhob awdurdod lleol, nododd rhanddeiliaid fod y Tasglu wedi gwneud penderfyniad strategol cynnar i ganolbwyntio'r adnoddau ar nifer fach o drefi allweddol.

Awgrymodd yr adborth y gwnaed y gwaith cychwynnol yn llwyddiannus, gyda chyllid ar gael i gynhyrchu meistrddogfennau cynllunio ar gyfer trefi allweddol dewisol. Yn ogystal, hwylusodd Tasglu'r Cymoedd drafodaethau a digwyddiadau ymgysylltu ym mhob ardal ganolbwynt ddynodedig i gasglu safbwyntiau ac i ddechrau siapio cyfeiriad teithio.

Credai rhanddeiliaid fod cynnydd wedi lleihau dros amser, heb unrhyw esboniad clir pam nad oedd hybiau strategol bellach yn flaenoriaeth i Dasglu'r Cymoedd. Mynegodd llawer o randdeiliaid eu cefnogaeth barhaus i'r cysyniad o fuddsoddi adnoddau mewn safleoedd allweddol ac

roeddent yn teimlo eu bod wedi dod i ben heb resymeg glir am wneud hynny na thystiolaeth o'r gwahaniaeth a wnaed.

Roedd barn ymhlith rhanddeiliaid nad oedd unrhyw gynllun amgen go iawn ar waith i ddisodli'r hybiau strategol nac ychwaith dystiolaeth gymhellol y gallai dull gwahanol sicrhau canlyniadau gwell: 'mae'r syniad wedi'i ddileu. Nid wyf yn siŵr beth yw'r cynllun cyfrwys nawr.'

Roedd llawer yn teimlo bod hyn yn drueni gan fod y syniad o ganolbwyntio buddsoddiad adfywio ar hybiau strategol allweddol yn hytrach na lledaeniad eang yn gadarnhaol.

**Effaith ar lunio polisïau**

6.18 Canfu'r gwaith maes enghreifftiau da o ble roedd trafodaethau dan arweiniad Tasglu'r Cymoedd wedi gallu dylanwadu ar bolisïau, dulliau gweithredu a phenderfyniadau cyllido prif ffrwd presennol. Roedd y rhain yn cynnwys dylanwadau ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn ogystal â gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol. Er enghraifft, cafodd y Cynllun Grant Cartrefi Gwag (ar gyfer perchnogion preswyl a thenantiaid) effaith uniongyrchol ar benderfyniadau awdurdodau lleol i ddyrannu cyllid tuag at y fenter hon. Ar draws Llywodraeth Cymru, cafodd y trafodaethau o fewn Tasglu'r Cymoedd effaith uniongyrchol ar y rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, gan arwain at nodi trefi eilaidd ar gyfer cymorth adfywio a llywio rhaglen adfywio fwy strategol yn y dyfodol:

**Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru**

Mae'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio yn gronfa allweddol gan Lywodraeth Cymru a ddefnyddir i drawsnewid trefi a ddewiswyd yn strategol ar y rhagdybiaeth y bydd buddsoddiad wedi'i dargedu yn cael mwy o effaith â mwy o ffocws.

Trwy Dasglu'r Cymoedd, nododd adborth awdurdodau lleol yr angen i raglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru gael ei haddasu ar draws y Cymoedd fel y gallai cymorth fod ar gael ar gyfer buddsoddiadau adfywio ar draws trefi eilaidd. Arweiniodd trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac amrywiol awdurdodau lleol at sicrhau bod cyllid y rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ar gael i drefi fel Maesteg a Bargod yn ogystal â threfi strategol fel Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili. Defnyddiwyd y dull hwn ar draws sawl ardal

awdurdod lleol ar draws y Cymoedd a chynigiwyd cyfanswm o brosiectau gwerth £3 miliwn. Maent yn cynnwys prosiectau sy'n derbyn hyd at £250,000 o arian grant i wella ffryntiad eiddo a gwella/creu cartrefi uwchben siopau.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd i Dasglu'r Cymoedd ariannu'r buddsoddiadau hyn ar draws trefi eilaidd, fel y bu hi, roedd tanwario oherwydd llithriant prosiectau yn golygu bod prosiectau ar draws Cymoedd y de-ddwyrain yn cael eu hariannu trwy gynllun Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru tra oedd prosiectau'r de-orllewin yn cael eu hariannu trwy Dasglu'r Cymoedd. Yn gyfan gwbl, darparodd Tasglu'r Cymoedd gyllid o £700,000 tuag at ddatblygiadau ar draws ardal Tasglu'r Cymoedd. Yn yr achos hwn, dadleuwyd bod Tasglu'r Cymoedd wedi helpu i nodi'r anghenion ar gyfer prosiectau adfywio ar raddfa lai ar draws ardal y Cymoedd.

O ystyried bod y prosiectau a ariannwyd gan Dargedu Buddsoddiad mewn Adfywio ond yn cychwyn ar adeg ymgymryd â gwaith maes, ystyriwyd ei bod yn amhosibl nodi'r effaith y byddai'n ei chael ar y Cymoedd. Serch hynny, roedd rhanddeiliaid yn hyderus y byddai'r buddsoddiadau ar draws trefi eilaidd yn helpu i wella ymddangosiadau a chyfleusterau eiddo, yn ogystal ag ysgogi buddsoddiad pellach yn y dyfodol.

Yn absenoldeb Tasglu'r Cymoedd, roedd rhanddeiliaid o'r farn y gallai'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio fod wedi archwilio canlyniad tebyg beth bynnag gan y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ceisio prosiectau eraill i fuddsoddi ynddynt yng ngoleuni tanwariant y rhaglen, er na fyddai'r cyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau'r de-orllewin wedi bod ar gael. Credwyd bod Tasglu'r Cymoedd wedi cyflymu'r broses ac wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru ariannu prosiectau yn gyflymach na fyddai wedi bod yn wir fel arall.

Mae'r profiad a'r adborth a gasglwyd trwy Dasglu'r Cymoedd hefyd wedi llywio polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio trefi yn y dyfodol, sy'n edrych i fabwysiadu dull mwy hyblyg i ddarparu ar gyfer blaenoriaethau'r awdurdodau lleol yn y dyfodol:

‘Rydym yn cydnabod, er bod trefi â blaenoriaeth yn briodol, bod angen rhywfaint o hyblygrwydd arnom hefyd i ymateb i gyfleoedd ar draws rhwydwaith ehangach o drefi lle maent yn ymddangos.’

6.19 Mae adborth gan randdeiliaid sy’n awdurdodau lleol hefyd yn awgrymu bod y trafodaethau a hwyluswyd trwy Dasglu'r Cymoedd a'r gwersi sy'n cael eu

dysgu yn cael effaith ar eu polisïau a'u harferion eu hunain. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol yn ailystyried ei strategaeth economaidd a sgiliau, ac yn ystyried sut i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau sylfaenol a chwmnïau angori. Yn yr achos hwn, mae'r awdurdod lleol yn dymuno parhau i ddarparu amgylchedd cystadleuol ac arloesol a fydd yn denu buddsoddiad, ond rhoi mwy o gymorth i fusnesau lleol sy'n gweithredu yn yr economi sylfaenol. Mewn achos arall, dadleuodd awdurdod lleol fod Tasglu'r Cymoedd wedi ychwanegu gwerth at ei waith gan ei fod wedi gallu dyblu ei fuddsoddiad mewn mentrau penodol, megis y cynllun Cartrefi Gwag a datblygiadau parc tirwedd a ariannwyd yn ei barc Porth Darganfod.

6.20 O ran yr effaith ar y sector iechyd, nododd un bwrdd iechyd fod ei gydweithrediad â Thasglu'r Cymoedd yn arwain at ddull mwy cydgysylltiedig gan ei fod yn archwilio cyfleoedd rhagnodi cymdeithasol trwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd a fyddai'n cynnwys atgyfeiriadau meddygon teulu. Er bod y pandemig COVID-19 wedi atal y datblygiadau hyn yn ystod 2020, roedd yn obeithiol o adfer cynlluniau yn y flwyddyn newydd.

6.21 Roedd peth tystiolaeth hefyd bod gwaith a wnaed o dan faner Tasglu'r Cymoedd wedi helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau cyllido. Er enghraifft, adroddwyd y gofynnwyd i brosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd wneud sylwadau ar gyweddu strategol ac aliniad ceisiadau am gyllid Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac y disgwylid iddynt gael eu cyflawni ar draws ardal y Cymoedd. Hysbyswyd ymgeiswyr y byddai Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynghori ar addasrwydd ceisiadau, a oedd yn annog trafodaeth rhwng ymgeiswyr a Phartneriaeth Ranbarthol y Cymoedd i wella aliniad.

6.22 Yn gyffredinol, roedd gan randdeiliaid eraill lai o farn am effeithiolrwydd Tasglu'r Cymoedd wrth drosoli cronfeydd, gydag un cyfrannwr o'r fath yn nodi:

‘Mae'n debyg ei fod yn ceisio tynnu popeth yn ardal y Cymoedd i un lle o fewn themâu. Ac yn ceisio tynnu arian o bob man. Ond mae'n anodd gweld

lle mae cronfeydd wedi'u trosoli. Mae'n anodd gweld beth sy’n cael ei wneud ganddynt. Mae’n anodd gweld beth sydd wedi’i gyflawni.’

6.23 Roedd sawl rhanddeiliad yn ymwybodol bod Tasglu'r Cymoedd wedi nodi cyfleoedd ac wedi helpu i hwyluso gweithio traws-lywodraethol rhwng gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru, er nad oedd sefydliadau rhanddeiliaid allanol bob amser yn ymwybodol o'r rhain. Un enghraifft a nodwyd oedd gweithio traws-lywodraethol rhwng iechyd a chymorth busnes, yn deillio o'r prosiect gofal cymdeithasol. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru, yn benodol, o'r farn bod Tasglu'r Cymoedd wedi bod yn fecanwaith effeithiol ar gyfer profi sut y gellid alinio gwahanol ffrydiau cyllido yn well, gan ddadlau bod llawer mwy o drafod ar draws adrannau Llywodraeth Cymru yn awr ynghylch sut y gellid alinio buddsoddiad â'r blaenoriaethau ar gyfer y Cymoedd. Dadleuodd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru fod Tasglu'r Cymoedd:

‘yn sicr wedi ffurfio canolbwynt defnyddiol iawn i adeiladu hynny [gweithio traws-bolisi] arno. Roedd bob amser yn mynd i fod yn rhaglen drawsbynciol enfawr.’

‘Rwy’n derbyn nad Tasglu'r Cymoedd yw’r unig sefydliad sy’n pwyso am y ffordd strategol, draws-bolisi hon o weithio ond mae wedi helpu. Yr ystyriaeth allweddol yw sut ydych chi'n cynnal y gwaith traws-bolisi hwn unwaith y daw Tasglu'r Cymoedd i ben?’

6.24 Awgrymwyd bod gwaith traws-lywodraethol a anogwyd trwy Dasglu'r Cymoedd wedi cael ei hyrwyddo ar gyflymder o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, o ystyried yr angen i wahanol adrannau Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol gynllunio eu hymateb brys. Mewn rhai achosion, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y pandemig wedi cael mwy o effaith ar hyn na Thasglu'r Cymoedd:

‘Nid gwaith y Tasglu yw'r peth sydd wedi newid y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, ond COVID-19.’

6.25 Nid oedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod holl adrannau Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Thasglu'r Cymoedd i'r un graddau, ac fe godon nhw bryderon ynghylch y diffyg ymgysylltu a chydweithio â rhai o'r rhain. I'w

hamddiffyn, nododd cwpl o randdeiliaid Llywodraeth Cymru yr anawsterau sy'n wynebu swyddogion wrth geisio ymgysylltu â myrdd o endidau partneriaeth ranbarthol ledled Cymru a'r gofynion yr oedd hyn yn eu gosod ar eu hamser. O ganlyniad, dadleuwyd bod endid rhanbarthol fel Tasglu'r Cymoedd yn gofyn am lefel ddigonol o adnoddau pwrpasol i gynnal momentwm a sicrhau ffocws ledled Llywodraeth Cymru:

‘Mae angen y capasiti hwnnw arno. Rydyn ni’n cael ein tynnu i gymaint o gyfeiriadau.’

6.26 Roedd rhanddeiliaid o'r farn mai effaith arall gwaith Tasglu'r Cymoedd oedd y statws cynyddol a gynigir i grwpiau cymunedol a mentrau presennol trwy fod yn gysylltiedig â'r rhaglen, a'r buddion a gafwyd o sicrhau cymorth Tasglu'r Cymoedd. Awgrymwyd bod cymorth gan Dasglu'r Cymoedd, a chysylltiad ag ef, wedi arwain at syniadau a phrosiectau yn ennill eu plwyf a chael statws uwch, a oedd yn amlwg o ddiddordeb a chefnogaeth gynyddol gan sefydliadau eraill o ganlyniad. Nododd un grŵp cymunedol, er enghraifft, fod y diddordeb a ddangoswyd gan Dasglu'r Cymoedd yn ei waith wedi arwain ato yn ailedrych ar ei ddyheadau:

‘Roedd yn gwneud inni sylweddoli y gallwn gyflawni mwy. Mae cael ei gymeradwyaeth wedi bod yn wych. Rhoddodd gefnogaeth ymhlyg inni. Mae hyn wedi ein rhoi mewn lle gwell yn strategol.’

6.27 Mae'r isod yn enghraifft eglurhaol o sut mae gwaith Tasglu'r Cymoedd wedi helpu i sefydlu cysylltiadau gwell rhwng grwpiau cymunedol ac awdurdodau lleol:

**Gwahaniaeth a wnaed i grwpiau cymunedol**

Dywedodd dau grŵp cymunedol fod Tasglu'r Cymoedd, trwy ei brosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd, wedi arwain at gydweithredu gwell rhwng y grwpiau a chynrychiolwyr eu hawdurdod lleol. Roedd y grwpiau hyn wedi ei chael yn heriol nodi'r cysylltiadau cywir o fewn yr awdurdod lleol a datblygu perthnasau agos â nhw. Sefydlodd un o gynullwyr swyddogion Parc Rhanbarthol y Cymoedd sesiwn ragarweiniol rhwng y prosiectau a 15 o swyddogion awdurdod lleol er mwyn iddynt gael dealltwriaeth well o'r prosiectau a'u huchelgeisiau yn y dyfodol. Roedd y ffaith bod y cyfarfod wedi'i gynnull gan brosiect a ariannwyd gan Dasglu'r Cymoedd yn golygu ei fod yn cario mwy o statws na chyfarfod a allai fod

wedi cael ei gynnal gan y grwpiau cymunedol yn uniongyrchol ac ystyriwyd ei fod wedi cael mwy o fynychwyr a gwell cefnogaeth o ganlyniad iddo gael ei drefnu o dan 'faner Tasglu'r Cymoedd'.

**Buddion i gymunedau'r Cymoedd**

6.28 Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod Tasglu'r Cymoedd wedi cael effaith uniongyrchol eithaf cyfyngedig ar gymunedau'r Cymoedd dros ei hyd. Lle credai rhanddeiliaid ei fod wedi gwneud gwahaniaeth, roedd yr effaith gadarnhaol yn gysylltiedig yn bennaf â mentrau diriaethol fel y Cynllun Cartrefi Gwag, prosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol ac elfennau o brosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Sylwodd rhanddeiliaid y byddai derbynwyr y Cynllun Cartrefi Gwag wedi elwa o gael mynediad at dai fforddiadwy tra byddai buddsoddiad mewn safleoedd Porth Darganfod trwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd wedi arwain at fwy o ddiddordeb gan ymwelwyr lleol a defnydd gwell o leoedd.

6.29 Roedd llawer o randdeiliaid yn ei chael hi'n anodd nodi unrhyw effeithiau ar gymunedau'r Cymoedd, gydag un yn mynegi'r farn ganlynol:

‘Yn onest? Nid yw i'n gwybod. Beth allwn ni ei ddweud wrth bobl y Cymoedd? Beth sy'n sylfaenol wahanol i bum mlynedd yn ôl? Llawer o ddim, mae'n debyg.’

6.30 Roedd llawer o randdeiliaid o'r farn bod effaith uniongyrchol eithaf cyfyngedig Tasglu'r Cymoedd yn cyd-fynd â'i amcan cyffredinol, yn yr ystyr nad oedd erioed yn ddisgwyl iddo drawsnewid amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y Cymoedd yn ystod ei oes.

6.31 Wedi dweud hynny, nododd cwpl o randdeiliaid o grwpiau cymunedol a oedd yn gweithredu ar lefel leol fod pobl yn dechrau sylwi ar y gwaith a'r buddsoddiad a wnaed gan Dasglu'r Cymoedd ar draws trefi penodol, megis Treherbert a Thonypandy:

**Gwahaniaeth a wnaed i drefi**

Awgrymodd cwpl o gyfranwyr fod tystiolaeth glir bod lefel uwch o gyllid yn cael ei chyfeirio at drefi Treherbert a Thonypandy yn Rhondda Cynon Taf o ganlyniad i Dasglu'r Cymoedd. Yn benodol, roedd Treherbert yn elwa o dri phrosiect Economi Sylfaenol a ariannwyd trwy'r Gronfa Her. Awgrymwyd bod y cyllid a'r diddordeb hwn yn helpu i godi proffil y ddwy dref: 'Maen nhw wedi cefnogi'r trefi, ac mae hyn wedi helpu i ennill cefnogaeth gan sefydliadau eraill.' Mae disgwyliadau uchel y bydd gwaith adfywio'r prosiect Siediau Mawr yn Nhonypandy yn cael effaith amlwg ar fywiogrwydd ac apêl y dref.

### Y dyfodol

6.32 Lleisiodd sawl rhanddeiliad eu barn a'u meddyliau am ddyfodol Tasglu'r Cymoedd a pha ddull, os rhywbeth, y dylai fod ar waith ar ôl i'r rhaglen ddod i ben ym mis Mawrth 2021. Roedd y pwyntiau a gwersi a ddysgwyd allweddol a nodwyd gan randdeiliaid yn cynnwys y canlynol:

- angen sicrhau bod ffocws parhaus ar fynd i'r afael â'r materion economaidd-gymdeithasol penodol sy'n wynebu'r Cymoedd, er bod angen ystyried ymhellach y mecanwaith a'r model cyflawni i gyflawni hyn
- bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r rôl y gallai Cynghorau Cyfiawnder Sifil ei chwarae o fewn unrhyw fodel neu ddull gweithredu yn y dyfodol
- y gellir cynnal unrhyw ddull yn y dyfodol am dymor llawer hirach gydag adnoddau digonol, o ran cyllid staff a chyfalaf, i gyflawni amcanion uchelgeisiol
- bod unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol yn cael ei lywio'n briodol gan ymgysylltu â'r gymuned
- bod unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol yn canolbwyntio ar nifer llai o feysydd blaenoriaeth allweddol
- bod lle i adeiladu ar strwythur presennol Tasglu'r Cymoedd, a thrwy hynny osgoi cyflwyno 'cynllun' neu 'frand' newydd

- awydd i weld y mentrau a dulliau llwyddiannus sydd wedi'u treialu a'u hariannu gan Dasglu'r Cymoedd yn parhau yn y dyfodol:

  ‘yr her wrth symud ymlaen yw nad ydym am golli'r rhannau da o Dasglu'r Cymoedd’.

# 7. Casgliadau

7.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau, gan dynnu ar yr adolygiad o'r ddesg a chyfweliadau â rhanddeiliaid, ac mae'n cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

**Casgliadau**

7.2 Mae'r ymchwil wedi dangos bod rhesymeg sylfaenol gref dros sefydlu mecanwaith sy'n canolbwyntio ar y Cymoedd fel rhanbarth. Roedd angen amlwg am ymyrraeth a dull a fyddai’n rhoi anghenion y Cymoedd ar flaen y gad o ran datblygu polisi. Cydnabu Tasglu'r Cymoedd fod angen datrysiad hirdymor ar y materion yr oedd angen mynd i'r afael â hwy, ond eto roedd y model a fabwysiadwyd wedi'i gyfyngu gan amser gan raglen gyfredol y llywodraeth. Er mwyn cyflawni'r nodau a osododd Tasglu'r Cymoedd iddo'i hun, dylai'r mecanwaith ymyrryd fod wedi caniatáu i ymrwymiad hirdymor gael ei fabwysiadu o'r cychwyn cyntaf. Er y dylid canmol yr ymdrech i weithredu dull traws-lywodraethol, gofodol, byddai wedi elwa o gael ei gynllunio fel ymrwymiad tymor hwy. Mae hyn yn codi cwestiynau sylfaenol am y math o strwythur sydd fwyaf addas i fynd i'r afael â'r materion treiddiol sy'n wynebu cymunedau'r Cymoedd a dylai gael ei adolygu gan Dasglu'r Cymoedd ar gyfer y dyfodol.

7.3 Un o gryfderau allweddol y dull a fabwysiadwyd gan Dasglu'r Cymoedd fu'r ymdrech i ymgysylltu â chymunedau i gael eu barn am y blaenoriaethau y dylai Tasglu'r Cymoedd ganolbwyntio arnynt. Mae'n amlwg bod yr adborth a gasglwyd wedi'i ddefnyddio'n effeithiol i lywio blaenoriaethau'r rhaglen waith. Er bod yr ymdrech ymgysylltu hon wedi defnyddio amser ac ymdrech sylweddol ar ran Tasglu'r Cymoedd a'i sefydliadau rhanddeiliaid, heb os, roedd yn gwahaniaethu Tasglu'r Cymoedd o'r dulliau a fabwysiadwyd gan raglenni rhagflaenol a dylid ei ystyried yn arfer da o ran unrhyw ddulliau gweithredu yn y dyfodol.

7.4 Dechreuodd Tasglu'r Cymoedd gyda set uchelgeisiol iawn o nodau ac amcanion ond nid oedd ganddo'r adnoddau na'r gallu i gyflawni'r rhain yn effeithiol. Bu newid amlwg ym mlaenoriaethau a ffocws Tasglu'r Cymoedd dros amser, ac er y gellid dehongli hyn fel cryfder o ran hyblygrwydd a’r

gallu i addasu, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y newidiadau hyn wedi digwydd i raddau helaeth o ganlyniad i benderfyniadau gwleidyddol yn hytrach na thystiolaeth werthuso gadarn o ran yr hyn a oedd yn gweithio ar y pryd ai peidio.

7.5 Mae Tasglu'r Cymoedd wedi llwyddo'n rhannol i gyflawni ei nod o ddylanwadu ac ennill trosoledd dros bolisïau ac ymyriadau a oedd eisoes ar waith, i gyflymu ac ymhelaethu ar welliannau i'r Cymoedd. Yn yr ystyr hwn, mae wedi chwarae rhan bwysig wrth eirioli dros y Cymoedd trwy sicrhau bod mwy o ffocws yn cael ei roi i faterion sy’n benodol i’r Cymoedd ar draws polisi prif ffrwd a darparu gwasanaethau. Mae hefyd wedi gweithredu'n effeithiol fel cyfrwng i hwyluso perthnasau ac annog cydweithredu a chydgynhyrchu ar draws gwahanol feysydd polisi. Mae wedi cyfrannu a helpu i leihau gweithio mewn seilos ar draws nifer o feysydd polisi, yn enwedig o fewn Llywodraeth Cymru, a chanfu'r ymchwil sawl enghraifft o gydweithio traws-bolisi effeithiol a ysgogwyd gan Dasglu'r Cymoedd. Wrth iddo nesáu at ddiwedd ei raglen gyfredol, mae angen bellach i Dasglu'r Cymoedd ystyried sut y gellir cynnal ac ymestyn y dull traws-bolisi hwn er mwyn osgoi rhanddeiliaid yn dychwelyd i'w ffyrdd blaenorol o weithio a dad-flaenoriaethu'r Cymoedd yn eu hystyriaethau polisi ehangach.

7.6 Mae Tasglu'r Cymoedd wedi gallu gwneud cynnydd da ar draws rhai blaenoriaethau penodol ers ei sefydlu. Mae'r adborth gan randdeiliaid yn tynnu sylw at ddwy enghraifft yn benodol (y Cynllun Grant Cartrefi Gwag a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd) fel ymyriadau llwyddiannus. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y rhain wedi bod yn effeithiol oherwydd y buddion uniongyrchol y maent wedi'u cynhyrchu i gymunedau'r Cymoedd, y graddau y gellir cynnal y gweithgareddau ar ôl cyfnod cyfredol y rhaglen, a’r ffaith eu bod ar raddfa ddigonol i wneud gwahaniaeth ystyrlon, gan gyflwyno menter lwyddiannus, yn achos y Cynllun Grant Cartrefi Gwag, o un ardal awdurdod lleol i lawer ohonynt.

7.7 Nid oes amheuaeth bod cynnydd Tasglu'r Cymoedd yn ystod 2020 wedi cael ei rwystro'n ddifrifol gan effeithiau'r pandemig COVID-19 a bydd hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar allu Tasglu'r Cymoedd i gyflawni ac

adrodd ar gyfraniad cadarnhaol i ddangosyddion economaidd-gymdeithasol y Cymoedd.

7.8 Roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo nad oeddent yn ymwybodol o lwyddiant Tasglu'r Cymoedd a'r gwahaniaeth a wnaed ganddo i gymunedau'r Cymoedd, gan briodoli hyn i ddiffyg gwybodaeth am yr hyn yr oedd Tasglu'r Cymoedd wedi'i gyflawni. Mae hyn yn awgrymu nad yw Tasglu'r Cymoedd o bosibl wedi blaenoriaethu gwaith yn ddigonol i gyfleu ei gyflawniadau ymarferol. Nid ydym yn credu y dylai hyn fod yn feirniadaeth o waith Tasglu'r Cymoedd, o gofio bod llawer o'i ffocws wedi bod ar weithredu y tu ôl i'r llenni, ond mae angen cydnabod y bydd ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwahaniaeth a gyflawnwyd gan Dasglu'r Cymoedd yn is o ganlyniad. Pryder pwysicach yw bod rhanddeiliaid o'r farn bod sawl prosiect peilot neu ymyriad posibl y buont yn ymwneud â hwy heb greu unrhyw gyflawniadau cadarn yn ôl pob golwg. Wrth gwrs, mae'n bwysig cofio bod COVID-19 wedi effeithio ar rai o'r rhain ac, yn unol â'u natur, na fyddai pob syniad peilot yn gweithio.

7.9 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y buddion uniongyrchol i gymunedau'r Cymoedd o waith Tasglu'r Cymoedd yn gyfyngedig. Yn ymarferol, ni ddyluniwyd Tasglu'r Cymoedd i fod yn fecanwaith cyflawni uniongyrchol gyda chronfeydd sylweddol i ddarparu ymyriadau ar raddfa fawr i gymunedau'r Cymoedd. Serch hynny, gweithredodd Tasglu'r Cymoedd i raddau fel hyn ac, oherwydd hynny, mae rhanddeiliaid wedi asesu ei berfformiad ar y sail hon mewn ffordd eithaf negyddol.

7.10 O ran gweithio gyda mentrau economaidd eraill, mae tystiolaeth bod Tasglu'r Cymoedd wedi cydweithredu'n effeithiol â mentrau a sefydliadau eraill, ond bod cydweithredu â phartneriaethau rhanbarthol (Bargeinion Dinesig yn benodol) wedi bod yn llai effeithiol. Bydd angen i Dasglu'r Cymoedd ystyried sut mae'n croesawu datblygiad y Cynghorau Cyfiawnder Sifil a pha effaith y bydd eu cyflwyniad yn ei chael ar yr angen am endid Cymoedd yn y dyfodol, a'i gylch gwaith.

7.11 Mae'r adborth yn awgrymu bod trefniadau llywodraethu a rheoli'r rhaglen yn briodol ar y cyfan. Amlygwyd bod cael cadeiryddion cryf i'r Tasglu

Gweinidogol a sicrhau tryloywder gwaith yn nodweddion cadarnhaol. Prif wendidau'r trefniadau a fabwysiadwyd oedd diffyg cynrychiolaeth gymunedol o fewn strwythurau llywodraethu, tîm gweithredol heb ddigon o adnoddau, ac o bosibl strwythur llywodraethu rhy gymhleth o ran cael saith is-weithgor. Mater allweddol a godwyd mewn perthynas â'r trefniadau cyflwyno oedd a ddylai Tasglu'r Cymoedd fod wedi'i sefydlu o'r cychwyn gyda lefel ddigonol o gyllid refeniw a chyfalaf i'w alluogi i gyflawni ei nodau ac amcanion uchelgeisiol.

7.12 Nododd y gwaith maes sawl gwers o brofiad Tasglu'r Cymoedd dros ei gyfnod o bedair blynedd. Un wers allweddol yw y byddai Tasglu'r Cymoedd, o ystyried ei allu ac adnoddau eithaf cyfyngedig, wedi elwa o flaenoriaethu ei ymdrechion i ganolbwyntio ar ystod fwy cul o feysydd polisi a llai o brosiectau mwy strategol. Gwers bwysig arall yw y byddai Tasglu'r Cymoedd wedi elwa o adolygiad canol cyfnod o'i gwmpas sector a pholisi er mwyn nodi unrhyw fylchau o ran ei gyrhaeddiad i'r rhain a, lle y bo'n briodol, mynd i'r afael â hwy. Yn achos cyflwyno Tasglu'r Cymoedd hyd yma, ystyriwyd bod y bylchau hyn yn fwyaf amlwg ym maes iechyd ac addysg.

**Argymhellion**

7.13 Gan ystyried y safbwyntiau a gynigiwyd gan randdeiliaid, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhellion canlynol:

**Argymhelliad 1**: Ar y sail bod ardal y Cymoedd yn parhau i brofi materion ac anghydraddoldebau dwfn o'i chymharu â gweddill Cymru, mae achos cryf dros ymyrraeth barhaus a ffocws ar y Cymoedd fel endid rhanbarthol

**Argymhelliad 2**: Y dylid ystyried y strwythur mwyaf priodol a fyddai fwyaf addas i fynd i'r afael ag anghenion y Cymoedd yn y dyfodol, gan sicrhau bod y strwythur hwn yn caniatáu i ddull hirdymor gael ei fabwysiadu sy'n adlewyrchu sefydlu Cynghorau Cyfiawnder Sifil ar draws Cymru

**Argymhelliad 3**: Bod graddfa'r uchelgais a nodir ar gyfer unrhyw ymyrraeth yn y Cymoedd yn y dyfodol yn cael ei chyfateb yn briodol o ran adnoddau cyllid cyfalaf a refeniw, gan gydnabod bod heriau cyllidebol ar ôl COVID-19 yn debygol o effeithio ar hyn

**Argymhelliad 4**: Bod unrhyw ymyrraeth yn y Cymoedd yn y dyfodol yn mabwysiadu ystod fwy cul o flaenoriaethau ac yn ystyried cefnogi nifer llai o brosiectau mawr a mwy strategol

**Argymhelliad 5**:Bod unrhyw ymyrraeth yn y Cymoedd yn y dyfodol yn adeiladu ar ddulliau ymgysylltu â'r gymuned effeithiol a fabwysiadwyd gan Dasglu'r Cymoedd ac yn ystyried sut y gellid cynnal yr ymgysylltiad hwn a'i ymgorffori yn nhrefniadau dylunio a llywodraethu rhaglenni yn y dyfodol

**Argymhelliad 6**: Bod unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol yn mynegi'n glir, trwy ddull theori newid o'r cychwyn cyntaf, nodau cyflawni tymor byr (e.e. o fewn tymor un llywodraeth) a chanlyniadau a dyheadau trawsnewidiol tymor hwy

**Argymhelliad 7**: Dylid ystyried sut y gellir cynnal rhai o'r ymyriadau llwyddiannus a dreialwyd trwy Dasglu'r Cymoedd (yn benodol y Cynllun Grant Cartrefi Gwag a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd) yn y dyfodol.

# Atodiad A: Canllaw Trafod

## A: Cefndir

Beth yw eich rôl bresennol?

Ym mha ffordd ydych chi wedi bod yn gysylltiedig â Thasglu'r Cymoedd?

- Natur a hyd yr ymglymiad
- Aelod o'r Tasglu, y Bwrdd Rhaglen, y tîm polisi ac ati
- Maes o ddiddordeb polisi (tair thema a saith maes blaenoriaeth)[17]

## B: Yr hyn yr oedd Tasglu'r Cymoedd yn bwriadu ei gyflawni

Beth oedd yr ysgogwyr pwysicaf i sefydlu Tasglu'r Cymoedd?

- Pam mae angen Tasglu'r Cymoedd?
- Pa faterion allweddol y cafodd ei gynllunio i fynd i'r afael â nhw?
- Pa bolisïau a strategaethau allweddol a lywiodd ddatblygiad Tasglu'r Cymoedd?

Beth yn eich barn chi yw nodau ac amcanion Tasglu'r Cymoedd?

- Sut mae'r rhain wedi newid dros amser, os o gwbl? Beth yw'r rhesymau dros hyn?
- Pa mor gysylltiedig y mae rhanddeiliaid wedi bod o ran cyfrannu at unrhyw newidiadau i nodau ac amcanion Tasglu'r Cymoedd?
- I ba raddau y mae blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd wedi bod yn briodol?

Sut olwg ddylai fod ar ‘lwyddiant’ Tasglu'r Cymoedd?

- Pa ganlyniadau fyddech chi'n disgwyl eu gweld yn cael eu cyflawni nawr?
- Pa ganlyniadau fyddech chi'n disgwyl eu gweld yn y tymor hwy?

## C: Ffordd o weithio

Beth yw eich barn am drefniadau llywodraethu a rheoli rhaglen Tasglu’r Cymoedd?

- Pa mor briodol yw'r trefniadau hyn?
- A yw'r aelodau cywir yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu'n briodol?
- Beth sydd wedi gweithio'n dda a beth ellid fod wedi'i wella?

[17] Tai, Yr Economi Sylfaenol, Entrepreneuriaeth a chymorth busnes, Trafnidiaeth, Hybiau strategol, Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd, a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.

Beth yw eich barn am drefniadau cyflawni Tasglu'r Cymoedd?

- Beth sydd wedi gweithio'n dda o ran gweithredu'r rhaglen?
- Beth ellid fod wedi'i wella?

Pa mor effeithiol y mae gwahanol sefydliadau rhanddeiliaid wedi gweithio gyda'i gilydd o fewn Tasglu'r Cymoedd?

- A yw'r partneriaid a sefydliadau cywir wedi cymryd rhan?
- Beth yw eich barn ar lefel yr ymrwymiad a'r ymgysylltu y mae rhanddeiliaid wedi'i chyflwyno? Beth sy'n cyfrif fel ymgysylltu cryf neu wan?
- Pa heriau a wynebwyd a sut y gellid eu goresgyn?

A allwch chi nodi un neu ddwy enghraifft o gydweithio effeithiol rhwng sefydliadau partner?

- Pwy yw'r partneriaid a sut y digwyddodd hyn?
- Beth mae'r enghraifft hon yn ei olygu?
- Beth a gyflawnwyd hyd yma?
- Pam ydych chi'n ystyried ei fod yn effeithiol?
- Pa dystiolaeth sydd gennych chi am y gwahaniaeth y mae'n ei wneud?
- I ba raddau y byddai'r cydweithio wedi digwydd yn absenoldeb Tasglu'r Cymoedd?

Pa bolisïau a mentrau eraill ar draws ardal y Cymoedd ydych chi wedi bod yn rhan ohonynt ers sefydlu Tasglu'r Cymoedd (e.e. Bargen Ddinesig, ffrydiau cyllido eraill)?

- Sut mae Tasglu'r Cymoedd wedi gweithio gyda'r mentrau hyn?
- Pa werth ychwanegol y mae Tasglu'r Cymoedd wedi gallu ei gyfrannu at y mentrau eraill hyn?

## Ch. Llwyddiant a gwahaniaeth a wnaed

Beth yw eich barn ar y cynnydd cyffredinol a wnaed gan raglen Tasglu’r Cymoedd hyd yma?

- Sut mae hyn yn wahanol ar draws y tair thema a saith maes blaenoriaeth a beth yw’r rheswm am hyn?

I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Tasglu'r Cymoedd yn cyflawni ei nodau a'i amcanion?

- Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Wrth feddwl am brosiectau penodol Tasglu'r Cymoedd yr ydych chi wedi ymwneud fwyaf â nhw, pa mor llwyddiannus oedden nhw?

- Beth mae'r prosiect wedi'i gyflawni hyd yma?
- Pa dystiolaeth sydd gennych chi o'r buddion a gyflawnwyd gan y prosiect(au)?
- I ba raddau y gellir ehangu'r prosiect(au) neu eu trosglwyddo i ardaloedd eraill?

Pa wahaniaeth y mae Tasglu'r Cymoedd yn ei wneud i'r ffordd y mae polisïau presennol yn cael eu gweithredu?

- Pa dystiolaeth sydd gennych fod Tasglu'r Cymoedd wedi
  - dylanwadu ar ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys o fewn Llywodraeth Cymru?
  - arwain at ffyrdd traws-lywodraethol o weithio (h.y. symud i ffwrdd o weithio mewn seilos)?
  - galluogi trosoli arian ac adnoddau presennol i fynd i'r afael â blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd (e.e. trwy ddylanwadu ar ddyraniad cronfeydd sefydliadau partner i ardal y Cymoedd)?
- I ba raddau y byddai'r newidiadau hyn wedi digwydd yn absenoldeb Tasglu'r Cymoedd?
- Pa mor gynaliadwy yw'r newidiadau hyn? Pa etifeddiaeth y gall Tasglu'r Cymoedd ddisgwyl ei chynhyrchu?

Pa fuddion y mae Tasglu'r Cymoedd wedi'u cynhyrchu i gymunedau'r Cymoedd?

- Gofynnwch am y gwahaniaeth a wnaed ar draws y saith maes blaenoriaeth allweddol?

- Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?
- Pa elfennau o Dasglu'r Cymoedd (e.e. prosiectau unigol) sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i gymunedau'r Cymoedd?

### D: Heriau a gwersi a ddysgwyd

[Lle bo hynny'n briodol] Pa heriau, os o gwbl, ydych chi wedi'u hwynebu wrth weithio a chydweithio gyda Thasglu'r Cymoedd?

- Holwch ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth, agosatrwydd y Tasglu, cyfathrebu a chyllidebau
- Beth oedd goblygiadau'r heriau hyn?
- Sut, os o gwbl, y cafodd yr heriau hyn eu datrys / y gellid eu datrys yn y dyfodol?

Beth yw'r gwersi allweddol y byddech chi'n tynnu sylw atynt o'ch ymwneud â Thasglu'r Cymoedd?

Sut, os o gwbl, y defnyddiwyd unrhyw wersi o raglen Tasglu’r Cymoedd i lywio a siapio gwaith yn y dyfodol?

- Ym mha ffordd mae'r gwersi hyn yn cael eu cymhwyso i ddatblygu polisi rhanbarthol?

Pa arfer da, os o gwbl, o raglen Tasglu’r Cymoedd y gellid ei gymhwyso i rannau eraill o Gymru?

- Sut gallai unrhyw arfer da lywio dulliau datblygu rhanbarthol eraill?

## Atodiad B: Map ardal Tasglu'r Cymoedd

